# Rhaglen Gyflawn

**Gwasanaeth Democratiaeth**
Swyddfa'r Cyngor
CAERNARFON
Gwynedd
LL55 1SH

Cyfarfod

**PWYLLGOR SAFONAU**

Dyddiad ac Amser

**11.00 y.b., DYDD LLUN, 10FED GORFFENNAF, 2017**

Lleoliad

**Ystafell Gwyrfai, Swyddfa'r Cyngor, Caernarfon, Gwynedd. LL55 1SH**

Pwynt Cyswllt

**Eirian Roberts**

**01286 679018**

**eirianroberts3@gwynedd.llyw.cymru**

(Dosbarthwyd 30.0617)

# PWYLLGOR SAFONAU

## AELODAETH

## Aelodau Etholedig (3)

Y Cynghorwyr

Dewi Wyn Roberts
[2 sedd wag]

## Aelodau Annibynnol (hefo pleidlais) (5)

Jacqueline Hughes
Aled Jones
Margaret E.Jones
David Wareing
Einir Young

## Aelod Pwyllgor Cymuned (hefo pleidlais) (1)

Richard Parry Hughes

# R H A G L E N

**1. YMDDIHEURIADAU**

Derbyn unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb.

**2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

Derbyn unrhyw ddatganiad o fuddiant personol.

**3. MATERION BRYS**

Nodi unrhyw eitemau sy'n fater brys ym marn y Cadeirydd fel y gellir eu hystyried.

**4. COFNODION** 5 - 8

Bydd y Cadeirydd yn cynnig y dylid llofnodi cofnodion y cyfarfod blaenorol o'r pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar 23 Ionawr, 2017 fel rhai cywir (ynghlwm).

**5. ADRODDIAD BLYNYDDOL Y PWYLLGOR SAFONAU 2016 - 2017** 9 - 20

Ystyried adroddiad y Swyddog Monitro (ynghlwm).

**6. TREFN DATRYS LLEOL AR GYFER CYNGHORAU TREF A CHYMUNED** 21 - 27

Ystyried adroddiad y Swyddog Monitro (ynghlwm).

**7. DISGRIFIADAU ROL AELODAETH PWYLLGOR SAFONAU** 28 - 36

Ystyried adroddiad y Swyddog Monitro (ynghlwm).

**8. HUNAN ASESIAD A RHAGLEN WAITH** 37 - 44

Ystyried adroddiad y Swyddog Monitro (ynghlwm).

**9. HONIADAU YN ERBYN AELODAU** 45 - 46

Ystyried adroddiad y Swyddog Monitro (ynghlwm).

**10. FFORWM PWYLLGORAU SAFONAU GOGLEDD CYMRU** 47 - 58

Cyflwyno, er gwybodaeth, gofnodion cyfarfod o Fforwm Pwyllgorau Safonau Gogledd Cymru a gynhaliwyd ar 17 Hydref, 2016 (ynghlwm).

**11. ADRODDIAD BLYNYDDOL PANEL DYFARNU CYMRU 2014 - 2016** 59 - 74

Ystyried adroddiad y Swyddog Monitro  (ynghlwm).

*Dilynir y cyfarfod ffurfiol gan sesiwn hyfforddiant byr i'r aelodau ar rôl a threfniadau'r pwyllgor.*

# PWYLLGOR SAFONAU DYDD LLUN, 23 IONAWR 2017

**Yn bresennol**:-

**Aelodau Etholedig:-** Y Cynghorwyr Lesley Day, Michael Sol Owen ac Eryl Jones-Williams.

**Aelodau Annibynnol:-** Ms Jacqueline Hughes, Mr Aled Jones, Miss Margaret Jones, Mr David Wareing a'r Dr Einir Young (Cadeirydd)

**Aelod Pwyllgor Cymunedol:-** Mr David Clay.

**Hefyd yn Bresennol:** Iwan Evans (Swyddog Monitro), Sion Huws (Uwch Gyfreithiwr) ac Eirian Roberts (Swyddog Cefnogi Aelodau).

**1. DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

Ni dderbyniwyd datganiad o fuddiant gan unrhyw aelod oedd yn bresennol.

**2. COFNODION**

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion y cyfarfod blaenorol o'r pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar 3 Hydref, 2016 fel rhai cywir.

Gan gyfeirio at eitem 3 o'r cofnodion, Paratoi ar gyfer Etholiadau Llywodraeth Leol 2017, nododd y Swyddog Monitro iddo ef a'r Uwch Gyfreithiwr fynychu cyfres o gyfarfodydd codi ymwybyddiaeth darpar ymgeiswyr yn ddiweddar i roi cyflwyniad byr ar y Cod Ymddygiad Aelodau.

**3. CEISIADAU AM ODDEFEB**

Cyflwynwyd –

(1) Adroddiad y Swyddog Monitro yn gofyn i'r pwyllgor ystyried a phenderfynu ar geisiadau gan y Cynghorydd Dilwyn Morgan, Aelod Y Bala ar Gyngor Gwynedd am oddefeb mewn cysylltiad ag ad-drefnu ysgolion yn nalgylch Ysgol y Berwyn, Y Bala.

(2) Cais pellach a dderbyniwyd, ar ôl paratoi'r adroddiad, gan y Cynghorydd Elwyn Edwards, Aelod Llandderfel ar Gyngor Gwynedd am oddefeb mewn perthynas â'r un mater.

Cyn ystyried y ceisiadau, rhoddodd y Swyddog Monitro amlinelliad o'r broses trefniadaeth ysgolion yn y dalgylch.

(1) <u>Cais y Cynghorydd Dilwyn Morgan</u>

Nododd y Swyddog Monitro:-

- Bod gan y Cynghorydd fuddiant yn y mater oherwydd bod ŵyr iddo'n ddisgybl yn Ysgol Bro Tegid.
- Y bu i'r Cynghorydd hefyd nodi ar ei ffurflen ei fod yn Llywodraethwr Ysgol y Berwyn, ond na fyddai hynny'n ei rwystro rhag cymryd rhan mewn trafodaethau gan fod y Cod Ymddygiad yn rhoi caniatâd penodol i lywodraethwyr a benodwyd gan y Cyngor i gymryd rhan, heblaw lle bydd ceisiadau am ganiatâd (e.e. cynllunio) yn cael eu trafod.

- Bod y Cynghorydd yn gofyn am oddefeb gyffredinol, oherwydd ei rôl fel aelod lleol, i gymryd rhan mewn unrhyw gyfarfod lle byddai gwahoddiad iddo roi sylwadau a mynegi barn ei etholwyr.
- Na chredai'r Cynghorydd y byddai ei gyfranogiad yn niweidio hyder y cyhoedd.

Cyfeiriwyd at benderfyniadau blaenorol mewn achosion tebyg ble caniatawyd goddefebau i aelodau â buddiant gymryd rhan yn y trafodaethau lleol yn unig ac awgrymwyd y dylid ymlynu at y cynsail a sefydlwyd eisoes fel bod y pwyllgor yn gyson yn ei benderfyniadau.

**PENDERFYNWYD caniatáu'r cais am oddefeb i'r Cynghorydd Dilwyn Morgan siarad, ond nid i bleidleisio, mewn cyfarfodydd dan nawdd y Cyngor ynglŷn ag ad-drefnu ysgolion yn nalgylch Ysgol y Berwyn, Y Bala sy'n cael eu cynnal yn yr ardal, ond na chaiff siarad, na bod yn bresennol na phleidleisio mewn cyfarfod o'r Cyngor, Cabinet nac unrhyw un o'i bwyllgorau a'i bod yn ofynnol iddo ddatgan yn glir ymhob cyfarfod y mae'n cymryd rhan ynddo ei fod wedi cael goddefeb, gan egluro union natur y cyfyngiadau arno, a bod hynny'n cael ei nodi yng nghofnodion y cyfryw gyfarfodydd.**

(2) Cais y Cynghorydd Elwyn Edwards

Nododd y Swyddog Monitro:-

- Bod gan y Cynghorydd fuddiant yn y mater oherwydd bod wyrion ac wyres iddo'n ddisgyblion yn Ysgol y Berwyn.
- Y caniatawyd goddefeb yn Nhachwedd 2009 i'r Cynghorydd gyfrannu i drafodaethau yn y Panel Adolygu Dalgylch, ond gan fod natur y trafodaethau lleol wedi newid ers y dyddiau hynny, yr argymhellid diweddaru'r oddefeb honno i adlewyrchu'r sefyllfa bresennol.
- Bod cais presennol y Cynghorydd yn gofyn yn benodol am oddefeb i arwyddo deiseb yn galw am statws cymunedol i Ysgol newydd Gydol Oes y Berwyn ac i gasglu enwau arni.

Wrth ystyried y cais nodwyd mai cais i weithredu mewn capasiti fel aelod o'r Cyngor oedd gerbron, ble 'roedd Cod Ymddygiad Aelodau Cyngor Gwynedd yn weithredol. Nodwyd hefyd fod gwybodaeth am union natur y gweithredu yn brin yn y cais. 'Roedd y pwyllgor o'r farn y byddai trefnu deiseb i'w chyflwyno gan aelod o Gyngor Gwynedd i'r Cabinet yn gallu cynrychioli ymgais i ddylanwadu ar y penderfyniad oedd i'w wneud ynghylch yr ysgol.

'Roedd y pwyllgor yn cydnabod pwysigrwydd mewnbwn gan aelodau i drafodaethau lleol o'r math yma, ac wedi caniatáu goddefebau i'w galluogi i gymryd rhan mewn trafodaethau a chyfarfodydd lleol, er bod ganddynt fuddiant sy'n rhagfarnu. Serch hynny, 'roedd y pwyllgor o'r farn y byddai cyflwyno deiseb yn uniongyrchol i'r rhai oedd yn gwneud y penderfyniad yn y modd yma, yn mynd y tu hwnt i'r hyn yr oedd yn fodlon ei ganiatáu. Byddai hyder y cyhoedd yn y broses yn cael ei niweidio petai aelodau â buddiannau sy'n rhagfarnu yn cael y cyfle i geisio dylanwadu fel hyn.

'Roedd arwyddo deiseb yn fater y teimlai'r pwyllgor allai ddod o fewn yr un categori o ddylanwad, ond 'roedd o'r farn na fyddai arwyddo deiseb yn y cyd-destun yma yn debygol o niweidio ffydd y cyhoedd yn y broses.

**PENDERFYNWYD**

**(a) Caniatáu'r cais am oddefeb i'r Cynghorydd Elwyn Edwards siarad, ond nid i bleidleisio, mewn cyfarfodydd dan nawdd y Cyngor ynglŷn ag ad-drefnu ysgolion yn nalgylch Ysgol y Berwyn, Y Bala sy'n cael eu cynnal yn yr ardal, ond na chaiff siarad, na bod yn bresennol na phleidleisio mewn cyfarfod o'r**

**Cyngor, Cabinet nac unrhyw un o'i bwyllgorau a'i bod yn ofynnol iddo ddatgan yn glir ymhob cyfarfod y mae'n cymryd rhan ynddo ei fod wedi cael goddefeb, gan egluro union natur y cyfyngiadau arno, a bod hynny'n cael ei nodi yng nghofnodion y cyfryw gyfarfodydd.**

**(b) Gwrthod goddefeb i'r Cynghorydd drefnu'r ddeiseb oherwydd bod y pwyllgor o'r farn y byddai trefnu deiseb i'w chyflwyno fel aelod o Gyngor Gwynedd i'r Cabinet yn gallu cynrychioli ymgais i ddylanwadu ar y penderfyniad oedd i'w wneud ynghylch yr ysgol ac y byddai hyder y cyhoedd yn y broses yn cael ei niweidio petai aelod â buddiant sy'n rhagfarnu yn cael y cyfle i geisio dylanwadu fel hyn.**

**(c) Caniatáu goddefeb i'r Cynghorydd arwyddo'r ddeiseb oherwydd bod y pwyllgor o'r farn na fyddai arwyddo deiseb yn y cyd-destun yma yn debygol o niweidio ffydd y cyhoedd yn y broses.**

Nododd y Swyddog Monitro y bwriadai gynnal trafodaeth gyda'r ddau gynghorydd ynglŷn â'u union hawliau yn sgil y penderfyniadau uchod.

## 4. AELODAETH Y PWYLLGOR SAFONAU YN DILYN ETHOLIADAU LLYWODRAETH LEOL 2017

Cyflwynwyd – adroddiad y Swyddog Monitro yn gofyn am farn y pwyllgor ar y drefn arfaethedig ar gyfer penodi aelodau etholedig ac aelod pwyllgor cymunedol i'r Pwyllgor Safonau yn dilyn etholiadau Llywodraeth Leol 2017.

Nododd yr Uwch Gyfreithiwr y bwriadai ysgrifennu'n uniongyrchol at yr holl gynghorau cymuned a thref cyn yr etholiadau ym mis Mai, fel y gallent ystyried y mater yn eu cyfarfodydd cyntaf yn dilyn yr etholiad. Yn ogystal â hyn, 'roedd yn bwriadu tynnu sylw holl aelodau Cyngor Gwynedd at yr angen i benodi aelod pwyllgor cymunedol newydd ar y Pwyllgor Safonau gan ofyn iddynt fynd â'r neges yn ôl i'w cynghorau cymuned a thref.

**PENDERFYNWYD cymeradwyo'r drefn arfaethedig.**

## 5. FFORWM PWYLLGORAU SAFONAU GOGLEDD CYMRU

Cyflwynwyd – adroddiad y Swyddog Monitro yn manylu ar rôl, cylch gorchwyl a threfniadau Fforwm Pwyllgorau Safonau Gogledd Cymru ac yn gofyn am farn yr aelodau ar ddatblygu'r fforwm.

Nododd y Swyddog Monitro fod cais i ymestyn y fforwm i gynnwys Pwyllgorau Safonau Cynghorau Powys a Cheredigion wedi cael derbyniad cadarnhaol gan y siroedd eraill yng Ngogledd Cymru.

Nododd y Cadeirydd bwysigrwydd sicrhau y dylai pob cyfarfod o'r fforwm fod i bwrpas a bod yna allbwn yn digwydd.

Atgoffwyd yr aelodau o'u hawl i gyfeirio unrhyw fater i'r fforwm am drafodaeth.

**PENDERFYNWYD datgan bod y pwyllgor hwn yn gefnogol i'r cais i ymestyn Fforwm Pwyllgorau Safonau Gogledd Cymru i gynnwys Pwyllgorau Safonau Cynghorau Powys a Cheredigion.**

## 6. COFRESTR BUDDIANNAU AELODAU

Cyflwynwyd, er gwybodaeth – adroddiad y Swyddog Monitro ar y gwaith paratoi ar gyfer cydymffurfio â'r gofyn i gyhoeddi'r Gofrestr Buddiannau yn electroneg, fel y bydd datganiadau pob aelod i'w gweld drwy eu tudalennau personol ar wefan y Cyngor.

Pwysleisiwyd pwysigrwydd sicrhau bod unrhyw aelod newydd ar y Cyngor ar ôl yr etholiadau ym mis Mai yn llwyr ymwybodol o'r drefn a nodwyd y byddai hynny'n rhan o'r sesiynau anwytho cyntaf ar y Cod Ymddygiad.

Nododd yr Uwch Gyfreithiwr fod y gwaith paratoi ar gyfer cyhoeddi'r gofrestr yn electroneg wedi amlygu'r angen i wella ffurf a chynnwys y ffurflenni hysbysiad o fuddiant personol.

Nodwyd, os yw hefyd yn ofynnol i gynghorau tref a chymuned gyhoeddi eu cofrestrau buddiannau yn electroneg, y dylai'r Swyddog Monitro eu hysbysu o hynny pan yn ysgrifennu atynt yn gwahodd enwebiadau ar y pwyllgor hwn.

**PENDERFYNWYD nodi'r adroddiad.**

## 7. HONIADAU YN ERBYN AELODAU

Cyflwynwyd, er gwybodaeth – adroddiad y Swyddog Monitro ar gwynion ffurfiol yn erbyn aelodau.

**PENDERFYNWYD nodi'r adroddiad.**

Dechreuodd y cyfarfod am 11.00 y.b. a daeth i ben am 12.05 y.h.

**CADEIRYDD**

# ADRODDIAD BLYNYDDOL
# PWYLLGOR SAFONAU
# CYNGOR GWYNEDD

# 2016 - 2017

# RHAGAIR GAN Y CADEIRYDD

[i ddilyn]

**Dr Einir Young**
**Cadeirydd y Pwyllgor Safonau**

# RHAGAIR GAN Y SWYDDOG MONITRO

[i ddilyn]

**Iwan Evans**
**Swyddog Monitro**
**Cyngor Gwynedd**

# CYFLWYNIAD

Sefydlwyd y Pwyllgor yn 2001 o dan Ddeddf Llywodraeth Leol 2000. Prif swyddogaeth y Pwyllgor yw hyrwyddo a chynnal safonau uchel o ymddygiad gan gynghorwyr ac aelodau cyfetholedig Cyngor Gwynedd, a chynghorau cymuned a thref Gwynedd. Gwna hyn mewn sawl ffordd:

- Cynorthwyo'r cynghorwyr a'r aelodau cyfetholedig i ddilyn y Cod Ymddygiad Aelodau.
- Cynghori'r awdurdod ar fabwysiadau neu ddiwygio'r Cod Ymddygiad Aelodau
- Monitro gweithrediad y Cod Ymddygiad Aelodau
- Cynghori, hyfforddi neu drefnu i hyfforddi cynghorwyr ac aelodau cyfetholedig ar faterion yn ymwneud â'r Cod Ymddygiad.
- Penderfynu ar gwynion a gyfeirir ato gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru fod aelodau wedi torri'r Cod Ymddygiad.
- Ystyried ceisiadau a wneir gan aelodau am oddefebau i'w galluogi i gymryd rhan mewn trafodaethau, er bod ganddynt fuddiant sy'n rhagfarnu o dan y Cod.
- Ystyried materion a gyfeirir ato dan drefn ddatrys cwynion lleol Cyngor Gwynedd
- Goruchwylio Polisi Rhoddion a Lletygarwch Aelodau Cyngor Gwynedd .

# AELODAU'R PWYLLGOR

Er bod y Pwyllgor Safonau yn un o bwyllgorau Cyngor Gwynedd, mae'n cynnwys mwyafrif o aelodau sydd heb unrhyw gysylltiad â'r Cyngor neu lywodraeth leol ('Aelodau Annibynnol'). Mae hefyd yn cynnwys aelod sy'n cynrychioli buddiannau'r cynghorau cymuned ('Aelod Pwyllgor Cymunedol'), yn ogystal â thri aelod etholedig o Gyngor Gwynedd. Rhaid i Gadeirydd ac Is-gadeirydd y Pwyllgor ddod o blith yr Aelodau Annibynnol.

## Aelodau Annibynnol

**Margaret E Jones (aelod ers 2012)**

Er yn enedigol o Landrillo yn Rhos mae Margaret wedi treulio'r rhan fwyaf o'i hoes yn Chwilog. Bu'n dysgu yn Ysgol Abersoch am 32 o flynyddoedd, yn cynnwys 14 fel prifathrawes. Mae'n ddiacon yn Eglwys yr Annibynwyr Siloh, Chwilog, a bu'n Gadeirydd Cyngor Undeb yr Annibynwyr Cymraeg am 3 blynedd ac mae hi hefyd yn gyn Llywydd yr Undeb. Bu'n aelod o Gyngor Iechyd Cymuned Gogledd Gwynedd ac yn Is-gadeirydd hyd at yr ad-drefnu yn 2010. Mae hi hefyd yn Gadeirydd Pwyllgor Eisteddfod Gadeiriol Chwilog.

**Dr Einir Young (aelod ers 2012)**

Wedi ei geni yn y Rhondda a'i magu yn Llanelli a Chwmtwrch mae Einir wedi ymgartrefu yng Ngwynedd ers bron i ddeg mlynedd ar hugain. Bu'n byw am gyfnod yng Nghaliffornia ac mae wedi teithio led led y byd yn enwedig i Affrica yn gweithio gyda chymunedau ymylol. Cymru yw canolbwynt ei gwaith erbyn hyn ond yr un yw'r heriau sy'n wynebu cymunedau - yr angen am weledigaeth hir dymor, sicrhau fod penderfyniadau'n cael eu gwneud er gwella neu'n atal pethau rhag mynd yn waeth, integreiddio ar draws cymunedau, cyd weithio ac efallai'n bwysicaf oll cynnwys pawb. Dyma'r union egwyddorion sydd i'w gweld yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol ac fel Cyfarwyddwr Cynaliadwyedd Prifysgol Bangor mae Einir a'i thîm yn y Labordy Cynaliadwyedd yn frwd dros hyrwyddo'r ffyrdd o weithio sy'n cael eu hannog gan y ddeddf ar draws y sefydliad a thu hwnt. Mae cynnal safonau yn elfen mor bwysig i gynaliadwyedd ag yw ail gylchu ac arbed ynni, ac mae hi'n falch o'r cyfle o gael bod yn rhan o Bwyllgor Safonau Cyngor Gwynedd ac i'w gadeirio.
Yn ei hamser hamdden mae Einir yn mwynhau cerdded ymysg pethau eraill ac ar hyn o bryd mae hi a'i chi ar daith o amgylch Llwybr Arfordir Cymru gyda'i chwaer.

**Jacqueline Hughes (aelod ers 2015)**

Mae Jackie yn byw yn Nantlle gyda'i gwr Ian, ei thair merch, ei hwyres a chi bywiog iawn. Yn wreiddiol o Gilgwri, cymhwysodd fel radiograffydd diagnostig yn 1987 ar ôl astudio yn Ysgol Radiograffeg Ysbyty Guys. Ar ôl ymgartrefu yng Ngogledd Cymru gyda'i theulu ifanc, ymunodd â staff yn Ysbyty Gwynedd. Mae gyrfa Jackie ym

Mangor wedi datblygu fel radiograffydd ac fel cynrychiolydd cysylltiadau diwydiannol. Ar hyn o bryd hi yw Cadeirydd Ochr y Staff ar gyfer y Bwrdd Iechyd Betsi Cadwaladr yn ogystal â bod yn gynrychiolydd lleol dros y rhan fwyaf o'r radiograffwyr yng Ngogledd Cymru. Bu'n Llywydd Cymdeithas a Choleg y Radiograffyddion ac roedd yn allweddol wrth ddatblygu'r ymateb i Adroddiad Francis, ac yn dilyn hynny côd ymddygiad newydd ar gyfer radiograffyddion. Mae hi'n credu bod yn rhaid i unrhyw un sy'n gweithio mewn bywyd cyhoeddus gynnal lefel uchel o safonau personol er mwyn bod yn gredadwy i'r cyhoedd.

**David Wareing (aelod ers 2015)**

Symudodd David o Swydd Gaerhirfryn i'r Groeslon yn 2014 yn dilyn ei ymddeoliad o Heddlu Glannau Mersi. Gwasanaethodd am 26 mlynedd mewn amrywiaeth o rolau, yn fwyaf diweddar yn Adran Weithredol yr Heddlu yn y Pencadlys. Yn y swydd hon roedd yn cynllunio digwyddiadau cyhoeddus mawr, diogelwch y cyhoedd yn ystod gweithrediadau gan yr Heddlu a lleihau cymorth yr heddlu i asiantaethau allanol drwy fwy o weithio mewn partneriaeth. Roedd yn arbenigo mewn asesu risg a sicrhau cydymffurfiaeth gyda deddfwriaeth iechyd a diogelwch. Cynrychiolodd David Heddlu Glannau Mersi ar bob un o'r pum Grŵp Ymgynghorol Diogelwch o fewn yr ardal honno. Mae'n credu'n gryf bod yn rhaid i weithredoedd y rhai sydd mewn swyddi cyhoeddus fod yn dryloyw ac yn atebol.

**Aled Jones (aelod ers 2016)**

Brodor o Lanbedr Pont Steffan, Ceredigion yn wreiddiol yw Aled. Astudiodd radd mewn Cymraeg a Daearyddiaeth ym Mhrifysgol Aberystwyth. Ar ôl graddio ym 1999, symudodd i Gaernarfon i weithio gyda chwmni cyfieithu Cymen a daeth yn gydberchennog ar y cwmni yn 2007. Bellach mae'n cyflogi tîm o 20 aelod staff a dros 15 o gyfieithwyr llawrydd eraill. Mae'n byw ym Mangor gyda Tegwen a'r plant, Cai a Beca. Mae'n mwynhau pob math o chwaraeon a chaiff ei weld yn aml yn cefnogi Clwb Rygbi Bethesda a Chlwb Pêl-droed Dinas Bangor. Yn rhinwedd ei swydd fel cyfieithydd ar y pryd, mae ganddo brofiad helaeth o fynychu cyfarfodydd ar bob lefel o lywodraethiant felly mae mewn sefyllfa dda i arsylwi ar ymddygiad a safonau gan adnabod yr arferion gorau.

## Aelod Pwyllgor Cymunedol

**Cynghorydd David Clay (aelod ers 2008)**

Mae David wedi bod yn aelod etholedig o Gyngor Tref Abermaw ers 29 mlynedd ac wedi bod yn gadeirydd ar bedwar achlysur gwahanol. Mae hefyd yn gyn gadeirydd Pwyllgor Ardal Meirionnydd Un Llais Cymru. Cyn ymddeol bu'n cadw gwesty yn Abermaw am 30 mlynedd ac 'roedd yn aelod gweithgar o Gyngor Twristiaeth Canolbarth Cymru ac yn Gyfarwyddwr Partneriaeth Twristiaeth Canolbarth Cymru.

## Aelodau Cyngor Gwynedd

**Cynghorydd Eryl Jones-Williams (aelod ers 2011)**

Mae Eryl yn newyddiadurwr llawrydd wedi lled-ymddeol ac wedi cynrychioli Dyffryn Ardudwy a Thalybont ar Gyngor Gwynedd ers 2008. Mae'n gynghorydd tref a chymuned ers blynyddoedd ac wedi gwasanaethu fel Maer a Chadeirydd. Mae'n cymryd rhan weithgar yn y maes hawliau anabledd ac yn is-gadeirydd Grŵp Mynediad Meirionnydd yn ogystal ag aelod o Fforwm Mynediad De Eryri a Chyngor Cymuned GIG Prifysgol Betsi Cadwaladr. Mae'n Gadeirydd Pwyllgor Trwyddedu Gwynedd, lle gall dynnu ar ei brofiad fel cyn drwyddedai. Mae hefyd yn Bencampwr Gofalwyr y Sir. Mae'n gyn-ddyfarnwr pêl-droed Cymru ac mae ei ddiddordebau yn cynnwys chwarae golff yng Nghlwb Brenhinol Dewi Sant, Harlech ac yn Nolgellau.

**Cynghorydd Michael Sol Owen (aelod ers 2012)**

Mae Michael yn byw ym Mhwllheli ac yn cynrychioli rhanbarth etholiadol Gogledd Pwllheli ar Gyngor Gwynedd ers mis Mai 2012. Enillodd radd mewn Ffiseg a Gwyddoniaeth Deunyddiau, bu'n rheolwr gyfarwyddwr cwmni ym Mhwllheli a hefyd yn gweithio i'r Cynulliad fel ymgynghorydd busnes. Mae wedi bod yn aelod o Gyngor Tref Pwllheli ers dros 30 mlynedd ac mae'n gadeirydd elusen Cynllun Ieuenctid Pwllheli. Mae'n gyn-Gadeirydd Pwyllgor Cynllunio Cyngor Gwynedd ac mae'n gwasanaethu fel aelod o Fwrdd Rheoli Cartrefi Cymunedol Gwynedd.

**Cynghorydd Lesley Day (aelod ers 2014)**

Bu Les yn Gynghorydd ar Gyngor Gwynedd ers mis Mai 2012 ac ar hyn o bryd mae hi'n gyn-Gadeirydd y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd. Mae hi wedi bod yn Gynghorydd Dinas Bangor ers 1991 ac mae hi'n gyn-faer, yn cynrychioli Ward Garth ym Mangor. Mae hi'n gyn-aelod ar Gyngor Bwrdeistrefol Arfon.

Mae cymwysterau, gyrfa a diddordebau Les yn gyfan gwbl mewn Llywodraeth Leol. Cafodd ei chymhwyster cyntaf mewn Gweinyddiaeth Gyhoeddus Llywodraeth Leol pan oedd yn gweithio i Gyngor Sir Surrey. Ar ôl dychwelyd i Fangor, ei thref enedigol, cafodd gymwysterau ariannol llywodraeth leol pan oedd yn gweithio i Gyngor Sir Gwynedd. Ar ôl yr aildrefnu yn 1996, trosglwyddodd Les i Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy. Mae Les yn Gadeirydd Canolfan Gymdeithasol Garth ac yn llywodraethwr yn Ysgol Hirael.

## Y Swyddog Monitro

Mae Swyddog Monitro'r Cyngor, Iwan Evans, ynghyd a swyddogion o'r Gwasanaeth Cyfreithiol a'r Gwasanaeth Democrataidd yn cefnogi'r Pwyllgor Safonau yn ei waith. Mae gan y Swyddog Monitro rôl statudol i sicrhau bod y Cyngor, ei aelodau a'i swyddogion yn gweithredu yn briodol ac yn gyfreithlon.

**Manylion Cyswllt**


- Iwan Evans, Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a Swyddog Monitro. E-bost: IwanGDEvans@gwynedd.llyw.cymru Ffôn 01286 679015
- Siôn Huws, Uwch Gyfreithiwr (Corfforaethol). E-bost: sionhuws@gwynedd.llyw.cymru Ffôn: (01286) 679168

# GWAITH Y PWYLLGOR YN YSTOD 2016 - 2017

Mae gwaith y Pwyllgor wedi cynnwys y canlynol dros y flwyddyn (ceir rhaglen waith lawn y Pwyllgor yn yr **Atodiad 1**):

## Achosion fu gerbron y Pwyllgor

Eleni, ni chyfeiriwyd unrhyw gŵyn o dorri'r Cod Ymddygiad at y Pwyllgor am benderfyniad.

## Cwynion eraill

Hysbysir y Pwyllgor hefyd o benderfyniadau'r Ombwdsmon ar y cwynion hynny na chyfeirir at y Pwyllgor am benderfyniad, a cheir crynodebau ohonynt yn **Atodiad 2.**

## Goddefebau

Mae'r Cod Ymddygiad i Aelodau yn darparu na all cynghorydd gymryd rhan mewn trafodaeth os oes ganddo/i 'fuddiant sy'n rhagfarnu'. Serch hynny mae gan aelod yr hawl i wneud cais i'r Pwyllgor am ganiatâd i gymryd rhan er bod ganddo/i'r buddiant yma, h.y. goddefiad.

Ystyriodd y Pwyllgor bedwar cais am oddefiad yn ystod y cyfnod yma oddi wrth aelodau Cynghorau Cymuned. Gwrthodwyd dau gais tra caniatawyd dau.

## Hyfforddiant ar y Cod ymddygiad

Bu'r Pwyllgor yn ystyried ac yn cynghori ar yr hyfforddiant ar y cod ymddygiad oedd i'w gynnig i aelodau yn dilyn yr Etholiadau Llywodraeth Leol ym mis Mai 2017. Fel canlyniad, darparwyd yr hyfforddiant hynny fel rhan o'r broses o anwytho aelodau i Gyngor Gwynedd a bydd sesiynau mwy manwl hefyd yn cael eu cynnal. Bydd sesiynau hyfforddi hefyd yn cael eu cynnig i'r cynghorau cymuned a thref.

## Fforwm Pwyllgorau Safonau Gogledd Cymru

Mae Fforwm Pwyllgorau Safonau Gogledd Cymru yn rhoi'r cyfle i gynrychiolwyr o holl bwyllgorau safonau awdurdodau'r gogledd gyfarfod. Pwrpas y fforwm yw galluogi pwyllgorau safonau'r ardal i drafod a rhannu syniadau, arferion da ac adnoddau, a hefyd gyflwyno barn ar y cyd ar y lefel genedlaethol. Mynychir cyfarfodydd y Fforwm gan Gadeirydd ac Is-gadeirydd y Pwyllgor.

Eleni cefnogodd y Pwyllgor gais gan Bwyllgorau Safonau Ceredigion a Phowys i ymuno â'r Fforwm.

# RHAGLEN WAITH Y PWYLLGOR SAFONAU 2016-17

**18 Ebrill 2016**

- Cynnal Hunanasesiad a llunio Rhaglen Waith ar gyfer y flwyddyn i ddod
- Ystyried y diwygiadau i'r Cod Ymddygiad Enghreifftiol
- Ystyried y broses o osod y Gofrestr Buddiannau Aelodau ar lein
- Penderfynu ar ddau gais am oddefeb

**27 Mehefin 2016**

- Cymeradwyo Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Safonau 2016/17
- Adolygu'r drefn i aelodau fynychu ac arsyllu cyfarfodydd pwyllgorau a chynghorau cymuned

**3 Hydref 2016**

- Ystyried y trefniadau ar gyfer Etholiadau Lywodraeth Leol 2017
- Trafod y drefn ddatrys leol arfaethedig ar gyfer cynghorau cymuned
- Ystyried Adroddiad Blynyddol yr Ombwdsmon 2015/16

**23 Ionawr 2017**

- Cymeradwyo trefn i benodi aelodau i'r Pwyllgor yn dilyn yr Etholiadau
- Ystyried cais i ymestyn aelodaeth Fforwm Pwyllgorau Safonau Gogledd Cymru
- Derbyn diweddariad ar y Gofrestr Buddiannau Aelodau
- Penderfynu ar ddau gais am oddefeb

**Atodiad 2**

**Hysbyswyd y Pwyllgor o'r penderfyniadau canlynol gan yr Ombwdsmon ar honiadau o dorri'r cod ymddygiad yn erbyn cynghorwyr sirol a chynghorwyr cymuned a thref Gwynedd:**

| **Honiad o dorri'r Cod Ymddygiad** | **Penderfyniad yr Ombwdsmon** |
| --- | --- |
| Bod cynghorydd wedi cyhuddo'r achwynydd (cyd-gynghorydd tref) ar gam o wneud sylwadau difrïol, gwahaniaethol a rhagfarnllyd ar sail oed amdani mewn cyfarfod o'r cyngor, ac a gyhoeddwyd wedi hynny mewn papur newydd lleol. | Dim ymchwiliad. Nid oedd yr Ombwdsmon wedi'i argyhoeddi y byddai cynnal ymchwiliad er budd y cyhoedd, er ei fod yn benderfyniad agos iawn. Ysgrifennodd yr Ombwdsmon at y cynghorydd i'w hatgoffa i ystyried ei rhwymedigaethau o dan y Cod Ymddygiad. |
| Bod y cynghorydd wedi dosbarthu gwybodaeth gamarweiniol am yr achwynydd (cyd- gynghorydd tref) yn datgan ei bod wedi pleidleisio mewn cyfarfod o'r pwyllgor cynllunio. Nid oedd yn aelod o'r pwyllgor ond bresennol fel sylwedydd yn unig. | Dim ymchwiliad. Nid oedd y cynghorydd a gyhuddwyd yn bresennol yn y cyfarfod, ond ar sail y dystiolaeth oedd ar gael nid oedd yn afresymol i unigolyn i gymryd yn ganiataol bod yr achwynydd wedi bod yn rhan o'r pwyllgor cynllunio mewn perthynas â'r eitem dan sylw. Roedd hi hefyd wedi manteisio ar y cyfle i egluro ei sefyllfa mewn erthygl papur newydd. Nid oedd er budd y cyhoedd i ymchwilio i'r gŵyn. Roedd y wybodaeth a dosbarthwyd yn fras o natur wleidyddol ac nid oedd yn amharchus neu sarhaus mewn tôn. |

| | |
|---|---|
| Roedd y cynghorydd wedi aflonyddu ar yr achwynydd (cyd-gynghorydd tref) drwy wneud cwyn di-sail i'r Ombwdsmon yn ei erbyn ei fod ef wedi aflonyddu arno. Roedd hefyd wedi defnyddio deunydd ysgrifennu'r cyngor wrth wneud hynny. Roedd hefyd yn honni bod y cynghorydd wedi methu â datgan buddiant mewn cyfarfod. | Dim ymchwiliad. Roedd yr Ombwdsmon eisoes wedi penderfynu peidio ymchwilio i'r gŵyn aflonyddu a fyddai dim yn cael ei ennill wrth ail-agor y mater. Roedd y cynghorydd yn ymgymryd â busnes y cyngor pan ddaeth ei bryderon ynghylch aflonyddwch i'r amlwg. Er bod y cynghorydd wedi gadael y cyfarfod dan sylw nid oedd wedi hysbysu'r cyngor yn agored o'r rheswm dros wneud hynny, sy'n ofynnol o dan y cod. Ni fyddai ymchwiliad fod er budd y cyhoedd ond byddai'r Ombwdsmon yn atgoffa'r cynghorydd ei ddyletswyddau o dan y cod. |
| Cwyn bod cynghorydd tref wedi methu datgan buddiant sy'n rhagfarnu ar sawl achlysur ac wedi cymryd rhan mewn cyfarfodydd. | Ombwdsmon wedi ymchwilio – dim tystiolaeth o dorri'r cod. |
| Cwyn bod cynghorydd tref wedi methu datgan buddiant sy'n rhagfarnu ar sawl achlysur ac wedi cymryd rhan mewn cyfarfodydd. | Yn dilyn ymchwiliad penderfynodd yr Ombwdsmon fod ymddygiad y cynghorydd yn groes o bosib i'r Cod, ond nad oedd budd i'r cyhoedd i gyfeirio'r cynghorydd at y Pwyllgor Safonau na Phanel Dyfarnu Cymru, o ystyried ei fod, erbyn hynny, wedi ymddiswyddo o'r Cyngor. |
| Cwyn bod cynghorydd sir wedi methu datgan buddiant sy'n rhagfarnu mewn eitem oedd ger bron pwyllgor am benderfyniad. | Dim ymchwiliad. Achwynydd heb gyflwyno tystiolaeth ddigonol i gefnogi ei gŵyn. |
| Bod aelod cyngor sir wedi ymddwyn yn amhriodol wrth gefnogi cais cynllunio yn ei etholaeth mewn cyfarfod o'r Pwyllgor Cynllunio. | Dim ymchwiliad. Nid oedd yr aelod yn aelod o'r pwyllgor ac roedd wedi datgan buddiant ac nid oedd hwnnw yn fuddiant oedd yn rhagfarnu. Roedd ganddo'r hawl i siarad a mynegi ei farn fel aelod lleol. |

| | |
|---|---|
| Nad oedd aelod cyngor sir o'r Pwyllgor Cynllunio wed i ymddwyn yn briodol a diduedd wrth benderfynu ar gais cynllunio. | Dim ymchwiliad.  Nid oedd yr achwynydd wedi darparu unrhyw dystiolaethi gefnogi ei gŵyn. |

| | |
|---|---|
| **Pwyllgor :** | **Pwyllgor Safonau** |
| **Dyddiad :** | **10 Gorffennaf 2017** |
| **Teitl :** | **Trefn Datrys lleol ar gyfer Cynghorau Tref a Chymuned** |
| **Awdur :** | **Swyddog Monitro** |
| **Pwrpas :** | **Er Ystyriaeth** |

**Cefndir**

1. Mae'r arweiniad diweddaraf gan yr Ombwdsmon ar y Cod Ymddygiad ar gyfer y Cynghorau Tref a Chymuned (Gorffennaf 2016) yn eu hannog i ddefnyddio Trefn Datrys Lleol ar gyfer cwynion lefel isel. Mae Cyngor Gwynedd eisioes wedi mabwysiadu protocol cyffelyb. Fodd bynnag nid yw y drefn yma yn addas ar gyfer Cyngor Tref a Chymuned ac hyd yn hyn nid oedd cynsail priodol iddynt fabwysiadu. Mae Unllais Cymru bellach wedi paratoi protocol.

2. Mae yn gymharol syml yn ei natur a dylai ei wneud yn hawdd i'w ddefnyddio neu ei addasu ar gyfer amgylchiadau lleol. Byddai'r drefn ond yn gweithio lle mae'r partion yn ceisio gwneud iddo weithio yn yr un modd a Threfn Datrys Lleol Cyngor Gwynedd. Gall methau a chydweithredu felly fod yn factor o blaid cyfeiriad at yr Ombwdsmon ar gyfer Ymchwiliad Lleol.

**Argymhelliad**

Bod y Pwyllgor yn cefnogi Trefn Datrys Lleol Unllais Cymru ac yn annog i Gynghorau Tref a Chymuned I fabwysiadu trefn o'r fath.

Un Llais Cymru

One Voice Wales

# Model Brotocol Datrysiadau Lleol ar gyfer Cynghorau Tref a Chymuned

# Model Brotocol Datrysiadau Lleol ar gyfer Cynghorau Tref a Chymuned

## Cefndir

Mae'r Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus wedi cytuno â'r egwyddor y dylid cyfeirio rhai cwynion yn erbyn Aelodau yn ôl i Gynghorau Tref a Chymuned i'w datrys yn lleol. Fodd bynnag, hyd yn hyn ni fu proses gyffredin i'w dilyn gan Gynghorau Tref a Chymuned wrth ddelio â materion o'r fath, Er mwyn cynorthwyo'r sector, mae Un Llais Cymru wedi llunio'r model brotocol canlynol y gall unrhyw Gyngor Tref a Chymuned ei ddefnyddio wrth ddelio â chwynion o'r fath.

Bwriedir i'r model brotocol fod yn fan cychwyn i Gynghorau Tref a Chymuned. Efallai y bydd cynghorau unigol yn dymuno ychwanegu at y model neu ei addasu i'w wneud yn addas i'w hanghenion penodol nhw. Dylai cynghorau sy'n dymuno dewis y broses ofalu yn y lle cyntaf fod ganddynt ddealltwriaeth glir o'i bwrpas a'i fwriad, ei fabwysiadu'n ffurfiol ar ei ffurf bresennol neu ar ffurf ddiwygiedig a gofalu fod pob Cynghorydd yn cael copi i'w sylw. Yna dylai'r Cyngor bennu'r fframwaith ar gyfer ei weithredu, a gall hynny olygu sefydlu Pwyllgor neu Banel neu ehangu cylch gorchwyl Panel neu Bwyllgor sy'n bod yn barod, megis Panel neu Bwyllgor Cwynion. Os mai'r bwriad yw sefydlu Panel newydd, mae'n bwysig fod cylch gorchwyl yn cael ei baratoi a'i fod yn cael ei gymeradwyo gan y Cyngor. Yn y naill sefyllfa a'r llall bydd yn bwysig i Gynghorau gofnodi yn y cylch gorchwyl beth fydd yn digwydd os yw'r aelod dan sylw'n dangos amharodrwydd i gydweithredu neu os yw pethau'n mynd ar chwâl wrth geisio gweithredu'r broses. Er enghraifft, mewn sefyllfaoedd o'r fath mae'n bosib mai'r drefn ddiofyn yw cyfeirio'r mater at Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru.

## Y Broses Datrysiad Lleol

### Materion y dylid eu hystyried o dan y broses hon

Cwynion lefel isel am Aelodau, gan gynnwys:

- Mân gwynion gan Aelodau am Aelodau
- Mân gwynion gan Swyddogion am Aelodau
- Aelodau yr honnir iddynt fethu dangos parch ac ystyriaeth i eraill – naill ai ar lafar neu'n ysgrifenedig

### Materion na ddylid eu hystyried o dan y broses hon

Mae'r cwynion y mae'n rhaid eu cyfeirio at Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru yn cynnwys:

- Cwynion a wneir gan aelod o'r cyhoedd
- Cwynion difrifol – torri'r Cod Ymddygiad/methiant i ddatgelu buddiannau/bwlïo/camddefnyddio swydd neu ymddiriedaeth/torri'r Cod dro ar ôl tro
- Cwynion a wnaed gan y Clerc/Swyddog Priodol
- Cwynion blinderus, maleisus neu wamal
- Cwynion Aelodau am swyddogion, y dylid delio â nhw trwy ddefnyddio proses cwynion mewnol y Cyngor

- Cwynion lefel isel ailadroddus

**Y Broses**

**Y gŵyn**
Byddai angen danfon y gŵyn at Glerc/Swyddog Priodol y Cyngor i gynnal didoliad cychwynnol i sicrhau fod y gŵyn ar lefel isel ac na ddylid delio â hi trwy gyflwyno cwyn i'r Ombwdsmon. Felly, os yn briodol, dylai'r Clerc/Swyddog Priodol geisio yn y lle cyntaf i gael datrysiad cynnar i unrhyw anghydfod o'r fath trwy drafod yn anffurfiol gyda'r aelodau unigol dan sylw cyn symud at y broses ddatrys a ddisgrifir isod. Mae'n hollbwysig fod yr aelod 'cyhuddedig' yn cael manylion llawn am y gŵyn yn eu herbyn fel eu bod yn enw cyfiawnder naturiol mewn sefyllfa i baratoi eu hymateb i'r cyhuddiad.

**Proses Datrysiad**
Rôl Cadeirydd/Is Gadeirydd y Cyngor yn y broses ganlynol yw peidio dyfarnu ar y gŵyn, ond yn hytrach ceisio cael yr Aelodau/swyddogion dan sylw i gytuno sut ellid datrys y mater(ion) mewn ffordd gyfeillgar.

Bydd y Clerc/Swyddog Priodol yn gweithredu'n hwylusydd ar gyfer y broses ddatrys isod.

Os yw'r gŵyn rhwng Aelodau ac eithrio Cadeirydd y Cyngor, bydd y Clerc/Swyddog Priodol a'r Cadeirydd yn cyfarfod yn unigol â'r achwynydd a'r Aelod y gwnaed y gŵyn yn ei erbyn/herbyn i geisio cael datrysiad y gall pawb gytuno arno.

Os yw'r gŵyn rhwng Aelodau, ac os yw un ohonynt yn Gadeirydd y Cyngor, ond nid yr Is Gadeirydd, bydd y Clerc/Swyddog Priodol a'r Is Gadeirydd yn cyfarfod â'r achwynydd a'r Aelod y gwnaed y gŵyn yn ei erbyn/herbyn i geisio cael datrysiad y gall pawb gytuno arno.

Os gwnaed y gŵyn gan swyddog/gweithiwr, ond nid y Clerc/Swyddog Priodol, yn erbyn Aelod ac eithrio Cadeirydd y Cyngor, bydd y Clerc/Swyddog Priodol a Chadeirydd y Cyngor yn cyfarfod â'r swyddog a'r Aelod y gwnaed y gŵyn yn ei erbyn/herbyn i geisio cael datrysiad y gall pawb gytuno arno.

Os gwnaed y gŵyn gan swyddog/gweithiwr, ond nid y Clerc/Swyddog Priodol, yn erbyn Cadeirydd y Cyngor, bydd y Clerc/Swyddog Priodol ac Is Gadeirydd y Cyngor yn cyfarfod â'r swyddog a'r Cadeirydd i geisio cael datrysiad y gall pawb gytuno arno.

Os gwnaed y gŵyn gan y Clerc/Swyddog Priodol, mae'n debyg mai'r arfer gorau fyddai danfon y gŵyn ymlaen ar ffurf cwyn at yr Ombwdsmon.

**Canlyniadau posib y broses**
Os ceir cytundeb gan Aelodau a/neu swyddogion yn ystod y Cam hwn nid oes angen cymryd unrhyw gamau eraill.

Os na ellir cael cytundeb byddai gan yr Aelod/swyddog a wnaeth y gŵyn y cyfle o hyd i gyfeirio'r mater at yr Ombwdsmon.

Gallai enghreifftiau o gytundebau gynnwys llythyr yn ymddiheuro, addewid neu ymrwymiad ysgrifenedig i beidio torri'r Cod Ymddygiad yn y dyfodol, ymrwymiad i

dderbyn hyfforddiant neu gytundeb na ddylid, ar sail y dystiolaeth, cymryd unrhyw gamau pellach ac y dylid cau'r mater.

**Amser ar gyfer y broses**

Y bwriad yw y gellir cwblhau'r holl brosesau cyn gyflymed ag y bo modd er mwyn datrys y mater. Fodd bynnag, bydd yr union gyfnod o amser yn dibynnu ar argaeledd unigolion i ddod i'r cyfarfodydd.

***Pwyntiau Pwysig i'w Cofio wrth baratoi proses i'w defnyddio gan y Cyngor***

*Dylai'r Clerc/Swyddog Priodol, Cadeiryddion ac Is Gadeiryddion Cynghorau ystyried derbyn hyfforddiant priodol ar hwyluso a chyfryngu er mwyn bod mewn sefyllfa i sicrhau bod y broses hon yn gweithio ar ei gorau. Dylai Cynghorau sydd am ddilyn y llwybr hwn gysylltu ag Un Llais Cymru i gael arweiniad pellach.*

*Efallai y bydd Cynghorau am gynnwys rhai canllawiau pan mae cwynion y mae'n fwy priodol delio â nhw o dan y broses hon yn cael eu cyfeirio'n ôl at y Cyngor gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru. Gallai Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru wneud hynny'n ddi-gwestiwn os oes gan y Cyngor broses a gymeradwywyd.*

*Awgrymir fod unrhyw gyfarfodydd a gynhelir er mwyn trafod y cwynion a/neu i ddatrys materion yn cael eu cofnodi. Dylid gwneud hynny er mwyn sicrhau y cofnodir unrhyw gytundebau. Bydd hynny'n ddefnyddiol hefyd os yw pethau'n mynd ar chwâl neu'n gwaethygu ac os oes angen eu cyfeirio at Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru. Gall fod yn ddefnyddiol hefyd fod tystiolaeth ar gael pe bai achosion eraill o dorri'r Cod a chamymddwyn yn digwydd yn y dyfodol.*

*Mae angen i gynghorau fod yn glir am eu grymoedd o ran materion cod ymddygiad. Mae'r Ombwdsmon wedi gweld enghreifftiau o gynghorau sydd wedi barnu ei bod yn briodol iddynt ymchwilio cwyn Cod Ymddygiad, penderfynu y torrwyd y Cod ac mae rhai hyd yn oed wedi barnu ei bod yn briodol iddynt ystyried cyflwyno cosb. Mae ymchwilio enghreifftiau posib o dorri'r Cod yn faterion i'r Ombwdsmon. Mae Deddf Llywodraeth Leol 2000 yn rhoi'r awdurdod iddo gynnal ymchwiliadau o'r fath. Nid oes gan y Cyngor unrhyw awdurdod cyfreithiol i gynnal ymchwiliadau o'r fath nac i benderfynu a gafodd y Cod Ymddygiad ei dorri, gan mai penderfyniadau yw'r rheiny sydd ond yn gallu cael eu cymryd gan Bwyllgor Safonau neu Banel Dyfarnu Cymru.*

## MWY AM UN LLAIS CYMRU

Un Llais Cymru yw'r corff cynrychioliadol cenedlaethol ar gyfer Cynghorau Cymuned a Thref trwy Gymru. Gweledigaeth Un Llais Cymru yw:

*"Gweithio gyda chynghorau lleol yng Nghymru i liwio lleoedd y mae cymunedau eisiau byw ynddynt"*

Mae Un Llais Cymru yn anelu at gefnogi Cynghorau Cymuned a Thref i wireddu'r weledigaeth hon a mabwysiadodd y Datganiad Cenhadaeth canlynol i lywio ei waith:

*"Cynrychioli buddiannau Cynghorau Cymuned a Thref; codi ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o'r haen gyntaf hon o lywodraeth a chydweithio gyda'n partneriaid i sicrhau bod y sector yn cyfrannu'n llawn i'r nod o ddatblygu cymunedau deinamig a chynaliadwy yng Nghymru."*

Un Llais Cymru
24c Stryd y Coleg
Rhydaman
SA18 3AF
01269 595 400
gweinydd@unllaiscymru.org.uk

www.unllaiscymru.org.uk

| | |
|---|---|
| **Pwyllgor :** | **Pwyllgor Safonau** |
| **Dyddiad :** | **10 Gorffennaf 2017** |
| **Teitl :** | **Disgrifiadau Rol Aelodaeth Pwyllgor Safonau** |
| **Awdur :** | **Swyddog Monitro** |
| **Pwrpas :** | **Er Gwybodaeth** |

**Crynodeb**

Yn ei gyfarfod ar y 15fed o Fehefin 2017 fe fabwysiadodd Cyngor Gwynedd "Ddisgrifiadau Rol "ar gyfer aelodau y Cyngor yn eu hamrywiol swyddogaethau". Yn eu plith paratowyd Swydd Ddisgrifiadau ar gyfer Aelodau a Chadeiryddion y Pwyllgor Safonnau. Atodir copi o'r Adroddiad aeth gerbron y Cyngor ynghyd a chopi o'r Swydd Ddisgrifiadau perthnasol i'r Pwyllgor Safonnau.

**Argymhelliad**

Derbyn yr adroddiad

| | |
|---|---|
| CYFARFOD | Cyngor Llawn |
| DYDDIAD | 15fed Mehefin 2017 |
| PWNC | Disgrifiadau o rolau |
| PWRPAS | Gofynnir i'r Cyngor llawn fabwysiadu'r disgrifiadau rolau amrywiol. |
| AWDUR | Geraint Owen,<br>Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd |

**PWRPAS**

1.1 Cyflwynir 'ddisgrifiad o rolau' (drafft) amrywiol yn Atodiad A, yn argymhelliad gan y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd i'w mabwysiadu'n ffurfiol gan y Cyngor Llawn.

1.2 Un o'r prif fanteision o greu a mabwysiadu'r 'disgrifiad o rolau' yw'r budd a gaiff aelodau newydd i'r Cyngor o'u defnyddio fel canllaw i ddeall yn well y gwahanol rolau ar wahanol bwyllgorau.

1.3 O ystyried yr uchod, cyhoeddwyd y 'disgrifiad o rolau' (drafft) ar y Porth aelodau er mwyn cynorthwyo'r aelodau a etholwyd o'r newydd ym mis Mai yn unol â chais y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd.

1.4 Mae mabwysiadu disgrifiadau o rolau ar gyfer aelodau hefyd yn rhan o'r gwaith y mae'r Pwyllgor yn ei wneud er mwyn sicrhau ennill 'Breinlen Cynorthwyo a Datblygu Cynghorwyr'.

1.5 Er gwybodaeth, datblygwyd y Freinlen gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, a chyfeirir ati ar lafar fel 'Siarter Aelodau'. Mae elfennau o'r Freinlen yn cyd-fynd ac yn adeiladu ar ofynion Mesur Llywodraeth Leol 2011 (Cymru). Bwriad y Freinlen yw gosod safonau penodol ym maes datblygu aelodau.

**CEFNDIR**

2.1 Roedd nifer o ddisgrifiadau o rolau yn bodoli eisoes, ond sylweddolwyd fod angen creu nifer o'r newydd hefyd.

2.2 Sefydlwyd is-grwp i edrych ar y gwaith, a diweddarwyd y disgrifiadau rolau oedd yn bodoli eisoes ar yr un pryd a chreu rhai newydd. Defnyddiwyd canllawiau'r Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru i lunio pob un o'r Disgrifiadau o Rôl a Chyfrifoldeb Aelod ac yn ogystal, ar gyfer y Pwyllgor Archwilio, defnyddiwyd canllawiau CIPFA (The Chartered Institute of Public Finance and Accountancy). Mae pob Disgrifiad o Rôl a Chyfrifoldeb Aelod (Drafft) yn cynnwys disgrifiad o'r sgiliau angenrheidiol i gyflawni yn y gwahanol rolau.

2.3 Ymgynghorwyd yn eang ar gynnwys y gwahanol Disgrifiadau o Rôl a Chyfrifoldeb Aelodau (Drafft) gyda'r Penaethiaid Gwasanaeth perthnasol, y Pennaeth Gwasanaeth Cyfreithiol, Arweinydd y Cyngor, y Tim Arweinyddiaeth ynghyd â swyddogion y Gwasanaeth Democrataidd.

2.4 Noder, nid oes elfen o werthuso ynghlwm â mabwysiadu disgrifiadau o rolau. Fodd bynnag, cynigir cyfweliadau datblygu personol i unrhyw aelod sy'n dymuno manteisio ar sgwrs i adnabod dulliau o ddatblygu eu sgiliau ymhellach.

2.5 Noder isod restr o'r disgrifiadau o rolau i'w mabwysiadu

- Aelod o Gyngor Gwynedd (sydd yn berthnasol i bob aelod)

    - Aelod o Bwyllgor Archwilio
    - Cadeirydd Pwyllgor Archwilio
    - Aelod o Bwyllgor Craffu
    - Cadeirydd Pwyllgor Craffu
    - Aelod Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd
    - Cadeirydd Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd
    - Aelod Pwyllgor Safonau
    - Cadeirydd Pwyllgor Safonau
    - Aelod Pwyllgor Trwyddedu
    - Cadeirydd Pwyllgor Trwyddedu
    - Aelod Pwyllgor Cynllunio
    - Cadeirydd Pwyllgor Cynllunio
    - Cadeirydd y Cyngor
    - Arweinydd Gwrthblaid a'i Ddirprwy

Gweler Atodiad A ar gyfer manylion y 'disgrifiad o rolau'.

**3. ARGYMHELLION**

3.1 Gofynnir i'r Cyngor Llawn fabwysiadu'r 'disgrifiadau o rolau' ar gyfer y rolau a nodir yn 2.5 uchod.

## Disgrifiad o rôl Cadeirydd Pwyllgor Safonau

(Mae’r Pwyllgor yn hyrwyddo, cynnal a gwarchod safonau ymddygiad Aelodau o fewn y Cyngor ac mewn perthynas â holl gynghorau cymuned Gwynedd).
Aelod annibynnol allanol sydd yn cadeirio,r Pwyllgor Safonau, nid Cynghorydd Cyngor Gwynedd.

Egwyddorion ymddygiad aelodau

- Agwedd agored a thryloyw
- Gonestrwydd
- Goddefgarwch a pharch
- Cydraddoldeb a thegwch
- Derbyn gwahaniaethau diwylliannol
- Cynaliadwyedd
- Cynnal y gyfraith

### 1 Atebolrwydd

- I'r Cyngor Llawn

### 2 Rôl, diben a gweithgarwch

#### 2.1 Arwain a chyfeirio

- Rheoli cyfarfodydd mewn modd hyderus ac effeithiol i hwyluso awyrgylch cynhwysol a chyfranogol sy’n arwain at benderfyniadau eglur.
- Amlygu agwedd didwyll a diduedd wrth weithredu, gan dderbyn cyngor proffesiynol, ac ymateb iddo.
- Gweithredu yn unol â gofynion y Cyfansoddiad a’r deddfau a pholisïau perthnasol.
- Gweithredu rheolau trafod perthnasol yn unol â’r Cyfansoddiad
- Gofalu bod y cyfarfodydd yn cael eu cynnal yn unol â pholisi Iaith Cyngor Gwynedd i hybu defnydd o’r iaith Gymraeg.
- Cadeirio cyfarfodydd yn unol â rheolau gweithdrefn cyfansoddiadol Cyngor Gwynedd.
- Bod yn llysgennad i’r Pwyllgor gan feithrin dealltwriaeth o’i waith.

#### 2.2 Rheoli cyfarfodydd yn effeithiol

- Cydweithio gyda’r swyddogion i gytuno rhaglen a nôd ac amcanion eglur i bob cyfarfod
- Rheoli’r ffordd mae’r cyfarfod yn mynd rhagddo, gan ofalu bod amcanion y cyfarfod yn cael eu cyflawni a bod pawb yn cadw at Côd Ymddygiad Aelodau, y rheolau gweithdrefn a gofynion cyfansoddiadol eraill (gan gadw mewn cof bod ambell bwyllgor yn cael ei we ddarlledu)
- Gofalu bod y gwaith paratoi priodol yn cael ei wneud ymlaen llaw (sy’n cynnwys, fel sy’n briodol, cyfarfodydd paratoi neu friffio, egluro rolau aelodau’r pwyllgor, swyddogion a mynychwyr eraill, amserlennu)

- Gofalu bod pawb sy'n cymryd rhan yn y cyfarfod yn cael cyfle i gyfrannu'n briodol, ac yn derbyn ymatebion priodol
- Gofalu bod y Pwyllgor yn glir ar ei benderfyniad a chrynhoi unrhyw gynigion a'r rhesymau dros y penderfyniad

**2.3 Cyfranogiad a datblygiad aelodau'r Pwyllgor**

- Annog perfformiad uchel gan bob aelod o'r Pwyllgor
- Asesu perfformiad torfol y Pwyllgor a hwyluso gweithgareddau datblygu priodol a/neu gymryd y camau priodol.

**2.4 Arwain y Pwyllgor wrth gyflawni ei rôl ynglŷn â**:

- hyrwyddo a chynnal safonau uchel ymddygiad gan gynghorwyr ac aelodau cyfetholedig;
- cynorthwyo'r cynghorwyr a'r aelodau cyfetholedig i gadw at Côd Ymddygiad Aelodau;
- cynghori'r Cyngor am fabwysiadu neu ddiwygio Côd Ymddygiad Aelodau;
- monitro hynt Côd Ymddygiad Aelodau;
- cynghori a hyfforddi cynghorwyr ac aelodau cyfetholedig (neu drefnu iddynt gael eu hyfforddi) am faterion sy'n berthnasol i'r Côd Ymddygiad Aelodau;
- caniatáu eithriadau i gynghorwyr ac aelodau cyfetholedig;
- ymdrin ag adroddiadau tribiwnlys neu dribiwnlys cyfamserol ac adroddiadau Swyddog Monitro'r Cyngor am unrhyw fater mae'r swyddog hwnnw wedi'i roi gerbron Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru;
- cyflawni swyddogaethau ynglŷn â Chynghorau Cymunedol a'u haelodau

**Is-gadeirydd**

- Cyflawni dyletswyddau'r Cadeirydd pan fo'n absennol.
- Cynorthwyo'r Cadeirydd mewn dyletswyddau penodol yn ôl yr angen.

**3. I gyflawni ei rôl yn ôl y disgrifiad, bydd Cadeirydd Pwyllgor Safonau angen:**

**3.1 Deall swyddogaeth y Pwyllgor Safonau**

- Deall diben a swyddogaeth y Cyngor, y Pwyllgor Safonau a'r trefniadau adrodd cwynion.
- Deall swyddogaeth y Pwyllgor.
- Deall y gyfraith a'r Cyfansoddiad mewn perthynas ag ymddygiad.
- Deall swyddogaethau Cynghorwyr a swyddogion.
- Deall saith egwyddor Nolan.
- Sgiliau arwain.
- Gallu rheoli gwaith y Pwyllgor.
- Dangos gwrthrychedd drwy gymryd penderfyniadau annibynnol ar sail tystiolaeth a'r cyfrifoldeb cyfreithiol.

- Bod yn  barod i fod yn atebol i'r cyhoedd.
- Mynychu hyfforddiant perthnasol

**3.2 Rheoli cyfarfodydd yn effeithiol**

- Deall a defnyddio protocolau cyfarfodydd, Côd Ymddygiad Aelodau, rheolau sefydlog a gofynion cyfansoddiadol eraill.
- Gallu llywio cyfarfodydd yn effeithiol, gan reoli'r agenda a chyflawni'r nodau.
- Gallu hwyluso trafodaethau effeithiol.
- Gallu gwrando a holi'n effeithiol.

**3.3 Ymglymiad a datblygiad aelodau'r Pwyllgor**

- Deall swyddogaeth y Pwyllgor Safonau a sgiliau ei aelodau.
- Gallu helpu'r Pwyllgor a'i aelodau i asesu'r hyn sydd wedi'i gyflawni.
- Gallu nodi unrhyw anghenion o ran hyfforddi a datblygu, hybu gweithgareddau dysgu a datblygu priodol a chymryd rhan ynddyn nhw.

**3.4 Hyrwyddo swyddogaeth y Pwyllgor Safonau**

- Gweithredu'n llysgennad dros y Pwyllgor, gan helpu pobl i ddeall ei rol.
- Deall materion technegol, gweithdrefnol a chyfreithiol i oruchwylio swyddogaethau'r Pwyllgor mewn modd teg a chywir.
- Gofalu bod y Pwyllgor yn gweithio mewn modd trylwyr, amhleidiol a gwrthrychol wrth ymarfer ei swyddogaethau

**NODER:** Mae'r disgrifiad rôl a'r gofynion sgiliau uchod yn ychwanegol i'ch disgrifiad rôl a'r gofynion sgiliau fel aelod o'r Pwyllgor Safonau

Enw Llawn:______________________________________________

Arwyddwyd:______________________________________________

Dyddiad:______________________________________________

**Disgrifiad o rôl Aelod o Bwyllgor Safonau**

(Mae'r Pwyllgor yn hyrwyddo, cynnal a gwarchod safonau ymddygiad Aelodau o fewn y Cyngor ac mewn perthynas â holl gynghorau cymuned Gwynedd )

| |
|---|
| Egwyddorion ymddygiad aelodau<br><br>• Agwedd agored a thryloyw<br>• Gonestrwydd<br>• Goddefgarwch a pharch<br>• Cydraddoldeb a thegwch<br>• Derbyn gwahaniaethau diwylliannol<br>• Cynaliadwyedd<br>• Cynnal y gyfraith |

## 1 Atebolrwydd

- I'r Cyngor Llawn

## 2 Rôl, diben a gweithgarwch

### 2.1 Gweithredu fel aelod o'r Pwyllgor Safonau a'i helpu i gyflawni ei rôl trwy:

- hyrwyddo a chynnal safonau uchel ymddygiad gan gynghorwyr ac aelodau cyfetholedig;
- cynorthwyo'r cynghorwyr a'r aelodau cyfetholedig i gadw at Côd Ymddygiad Aelodau;
- cynghori'r Cyngor am fabwysiadu neu ddiwygio Côd Ymddygiad Aelodau;
- monitro gweithrediad y Côd Ymddygiad Aelodau;
- cynghori a hyfforddi cynghorwyr ac aelodau cyfetholedig (neu drefnu iddynt gael eu hyfforddi) am faterion sy'n berthnasol i Côd Ymddygiad Aelodau;
- caniatáu goddefebau i gynghorwyr ac aelodau cyfetholedig;
- ymdrin ag unrhyw adroddiadau o dribiwnlys achos neu dribiwnlys achos dros dro ac unrhyw adroddiad oddi wrth y Swyddog Monitro ar unrhyw fater a gyfeiriwyd at y swyddog hwnnw gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru.
- gweithredu'r swyddogaethau hyn mewn perthynas ag aelodau etholedig a chyfetholedig Cyngor Gwynedd ac aelodau cynghorau cymuned Gwynedd.

- Deall materion technegol, gweithdrefnol a chyfreithiol i gyfrannu mewn modd teg a chywir i waith y Pwyllgor.

- Gweithredu mewn modd trylwyr, amhleidiol a gwrthrychol a di-duedd wrth ymdrin a'r materion sydd gerbron y pwyllgor.

- Dangos annibyniaeth ac amhleidioldeb mewn hybu, cynnal a gwella trefniadau moesegol o fewn Cyngor Gwynedd a chynghorau cymuned y sir.

## 2.2 Cymryd rhan mewn cyfarfodydd a phenderfynu ar faterion

- Cymryd rhan yn effeithiol yng nghyfarfodydd y Pwyllgor Safonau.
- Dod i benderfyniadau doeth a chytbwys (yn ôl amodau gorchwyl y Pwyllgor) sy'n cyd-fynd â gofynion y gyfraith, y cyfansoddiad a pholisïau perthnasol.

## 2.3 Llywodraethu mewnol, safonau moesegol a chysylltiadau

- Diogelu ansawdd penderfyniadau'r Pwyllgor a gofalu eich bod yn cyflawni'ch rôl fel aelod ohono trwy gadw at Côd Ymddygiad Aelodau a gofynion cyfansoddiadol a chyfreithiol eraill.
- Hyrwyddo a hwyluso llywodraethu da yn y Cyngor.
- Deall amryw rolau cynghorwyr, swyddogion a phobl allanol sy'n gweithredu yn y maes mae'r Pwyllgor yn gyfrifol amdano.

## 3. I gyflawni ei rôl yn ôl y disgrifiad, bydd aelod o Bwyllgor Safonau angen:

## 3.1 Deall swyddogaeth y Pwyllgor Safonau

- Deall diben a swyddogaeth y Cyngor, y Pwyllgor Safonau a'r trefniadau adrodd cwynion.
- Deall y gyfraith,Y Cyfansoddiad a Polisiau mewn perthynas ag ymddygiad aelodau'r Cyngor
- Deall y gyfraith,Y Cyfansoddiad a Polisiau mewn perthynas ag ymddygiad aelodau Cynghorau Cymuned
- Deall swyddogaethau cynghorwyr a swyddogion.
- Mynychu hyfforddiant perthnasol

## 3.2 Cymryd rhan mewn Cyfarfodydd, a phenderfynu

- Bod yn onest, gan weithredu'n ddiduedd beth bynnag fo'i farn bersonol.
- Dangos gwrthrychedd drwy gymryd penderfyniadau annibynnol ar sail tystiolaeth a'r gyfraith
- Gallu gwrando, a rhoi pob ystyriaeth a pharch i sylwadau pobl eraill.
- Gallu dehongli gwybodaeth
- Monitro gweithrediad y Côd Ymddygiad Aelodau.
- Bod yn barod i fod yn atebol i'r cyhoedd.

### 3.3 Llywodraethu mewnol, safonau moesol a chysylltiadau

- Gwybod a deall y Côd Ymddygiad Aelodau a'r protocolau.
- Gwybod gwerthoedd y Cyngor ac ymroi iddyn nhw.

**NODER:** Mae'r disgrifiad rôl a'r gofynion sgiliau uchod yn ychwanegol i'ch disgrifiad rôl a'r gofynion sgiliau fel aelod cyffredin

Enw Llawn:______________________________________________________________

Arwyddwyd:_____________________________________________________________

Dyddiad:________________________________________________________________

| | |
|---|---|
| CYFARFOD | PWYLLGOR SAFONAU |
| DYDDIAD | 10 Gorffennaf 2017 |
| TEITL | HUNAN ASESIAD A RHAGLEN WAITH |
| AWDUR | IWAN G D EVANS , SWYDDOG MONITRO |

1. Mae dau fwriad ar gyfer yr adroddiad yma sef cynnal hunan asesiad o waith ac allbynnau'r Pwyllgor yn ystod 2016-17 ac ystyried rhaglen waith drafft ar gyfer 2017 - 18.

2. Mae cylch gorchwyl y Pwyllgor Safonau wedi gosod drwy statud yng Nghyfansoddiad y Cyngor ac mae'n amserol efallai fod y Pwyllgor yn talu sylw newydd ar y rhain ar ddechrau tymor newydd er ffurfio cynllun gwaith ar gyfer y flwyddyn.

   (a) Hyrwyddo a chynnal safonau uchel o ymddygiad gan Gynghorwyr ac Aelodau cyfetholedig yr Awdurdod;

   (b) Cynorthwyo'r Cynghorwyr a'r Aelodau cyfetholedig i ddilyn y Cod Ymddygiad Aelodau;

   (c) Cynghori'r Cyngor ar fabwysiadu neu ddiwygio'r Cod Ymddygiad Aelodau;

   (ch) Monitro gweithrediad y Cod Ymddygiad Aelodau;

   (d) Cynghori, hyfforddi neu drefnu i hyfforddi Cynghorwyr ac Aelodau cyfetholedig ar faterion yn ymwneud â'r Cod Ymddygiad Aelodau.

3. Gofynnir i aelodau'r Pwyllgor ystyried y swyddogaethau a restrir yn y golofn gyntaf ac yna nodi pa asesiad mae'n credu sy'n berthnasol iddynt gan ddefnyddio'r categorïau canlynol:

   Categori 1 – Fod y Pwyllgor wedi gwneud cynnydd sylweddol yn cyflawni'r swyddogaeth neu yn achos tasgau penodol nid yw'r angen i weithredu wedi codi.

   Categori 2 - Fod y Pwyllgor wedi gweithredu'r swyddogaeth yn sylweddol

   Categori 3 - Fod y Pwyllgor wedi gweithredu'r swyddogaeth ond mae angen rhoi sylw pellach.

Categori 4 - Nid oes tystiolaeth fod y Pwyllgor wedi gweithredu'r swyddogaeth ac mae sail i awgrymu fod angen rhoi sylw i’r maes.

Mae angen nodi’r dystiolaeth sy’n cefnogi’r categori mae’r Pwyllgor yn ei ddyfarnu. Mae’r golofn “Tystiolaeth” yn dangos peth enghreifftiau o dystiolaeth ond mae’n bosib y bydd aelodau’r Pwyllgor yn gallu ychwanegu ati.

4. O ddyfarnu categori i bob swyddogaeth a nodi’r dystiolaeth bydd yn bosib i’r Pwyllgor ddod i gasgliad ynglŷn â pha gamau ychwanegol sydd angen eu cymryd (os o gwbl). Mae’r golofn olaf yn cynnwys rhai awgrymiadau am gamau pellach fydd yn bwydo trwodd i raglenni gwaith y Pwyllgor yn y dyfodol.

5. Atodiadau

Yn Atodiad 1 ceir hunan asesiad drafft er ystyriaeth gan y Pwyllgor

Yn Atodiad 2 Rhaglen Waith 2016-17 ac asesiad cyflawniad

Yn Atodiad 3 Rhaglen Waith drafft ar gyfer 2017-18

**ARGYMHELLIAD**

**Gofynnir i’r Pwyllgor gynnal Hunan Asesiad o’r perfformiad yn 2016-17 ynghyd a chymeradwyo rhaglen waith ar gyfer 2017-18**

**ATODIAD 1**

## HUNAN ASESIAD Y PWYLLGOR SAFONAU 2016/2107

| SWYDDOGAETH | ASESIAD (1/2/3/4) | Tystiolaeth | Camau pellach |
|---|---|---|---|
| Hyrwyddo a chynnal safonau ymddygiad uchel gan aelodau | | Mae'r Cadeirydd ac Is Gadeirydd wedi mynychu Fforwm Safonau Gogledd Cymru i rannu profiadau hefo pwyllgorau safonau eraill. | Parhau i fynychu a chefnogi |
| Cynorthwyo'r aelodau i gadw at y Cod Ymddygiad | | Cefnogi rhaglen anwytho ar gyfer y Cyngor newydd | Ystyried adborth Hyfforddiant a rhaglen newydded |
| Cynghori'r Cyngor ynglŷn â mabwysiadu neu ddiwygio'r Cod Ymddygiad | | Rhoddwyd ystyriaeth i ddiwygiadau i'r Cod Ymddygiad Enghreifftiol ar gyfer eu mabwysiadu gan y Cyngor llawn | |
| Monitro gweithrediad y Cod Ymddygiad | | Derbyn adroddiadau rheolaidd o honiadau yn erbyn aelodau<br><br>Derbyn adroddiadau blynyddol yr Ombwdsman a Phanel Dyfarnu Cymru<br><br>Derbynnir adroddiadau blynyddol am y gofrestr buddiannau a datganiadau a wneir<br><br>Derbynnir adroddiadau blynyddol am y gofrestr buddiannau a lletygarwch. | Parhau i fonitro ystyried dulliau amgen o dderbyn gwybodaeth<br><br>Ystyried y diwygiadau i'r Cod ymddygiad a sut i rannu'r newid. |
| Cynghori, hyfforddi neu drefnu i hyfforddi aelodau ar faterion yn ymwneud a'r Cod Ymddygiad | | | Rhaglen Hyfforddiant newydd |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Rhoi goddefebau i aelodau | | Ymdriniwyd â cheisiadau am oddefebau gan weithredu ar sail wrthrychol a phriodol, | |
| Ymdrin ag adroddiadau o dribiwnlys achos ac unrhyw adroddiadau gan y Swyddog Monitro ar faterion a gyfeiriwyd gan yr Ombwdsmon | | Ni chyfyd angen am wrandawiadau yn ystod y flwyddyn | |
| Awdurdodi'r Swyddog Monitro i dalu lwfansau i bersonau a gynorthwyodd gydag ymchwiliad | | Ni fu achlysur i dalu lwfans o'r fath | |
| Ymarfer y swyddogaethau uchod mewn perthynas â chynghorau cymuned | | Cyfathrebwyd gyda'r Cynghorau Cymuned i'w hysbysu o'r newidiadau i'r Cod a threfnwyd hysbyseb ar y cyd a nifer ohonynt. | Rhaglen Hyfforddiant newydd |

**ATODIAD 2/ APPENDIX 2**

| **Rhaglen Waith Pwyllgor Safonau** | **Standards Committee Work Programme** | |
|---|---|---|
| **27 Mehefin 2015** | **27 June 2015** | |
| Adroddiad Blynyddol | Annual Report | **1** |
| Honiadau yn erbyn aelodau | Allegations Against Members | **1** |
| Adolygu trefn i Aelodau fynychu cyfarfodydd pwyllgorau a Cynghorau Cymuned. | Review arrangements for members to attend meetings of committees and Community Councils | **2** |
| **3 Hydref 2015** | **3 October 2015** | |
| Adroddiad Blynyddol yr Ombudsman | Ombudsman's Annual Report | 1 |
| Honiadau yn erbyn Aelodau | Allegations Against Members | 1 |
| Trefn Datrys Lleol Cynghroau Cymuned | Local Resolution Procedures for Community Councils | 3 |
| Adolygiad Protocolau | Review of Protocols | 4 |

| | | |
|---|---|---|
| **23 Ionawr 2017** | **23 January 2017** | |
| Cofrestr Rhoddion a Lletygarwch | Gifts and Hospitality Register | **3** |
| Cofrestr Datgan Buddiant | Declaration of Interest registers | **2** |
| Adroddiad Blynyddol y Panel Dyfarnu | Annual Report of Adjudication Panel | **1** |
| Honiadau yn erbyn aelodau | Allegations against members | **1** |
| **27 Mawrth 2017 ( ni gynhaliwyd y cyfarfod)** | **27 March 2017( meeting not held)** | |
| Hunan Arfarniad a Rhaglen Waith | Self Assessment and Work Programme | 4 |
| Hyfforddiant | Training | 2 |
| Paratoi ar gyfer etholiad 2017 | Preparing for 2017 election | 1 |

**ATODIAD 3 /APPENDIX 3**

| **Rhaglen Waith Drafft Pwyllgor Safonau 2017/18** | **Draft Standards Committee Work Programme 2017/18** |
|---|---|
| **10 Gorffennaf 2017**<br><br>Adroddiad Blynyddol<br><br>Hunan Arfarniad a Rhaglen Waith<br><br>Honiadau yn erbyn aelodau<br><br>Trefn Datrys Leol Un Llais Cymru | **10 July 2017**<br><br>Annual Report<br><br>Self Assessment and Work Programme<br><br>Allegations Against Members<br><br>Local Resolution Procedure – One Voice Wales. |
| **2 Hydref 2017**<br><br>Adroddiad Blynyddol yr Ombwdsman<br><br>Honiadau yn erbyn Aelodau<br><br>Adolygiad Protocolau | **2 October 2017**<br><br>Ombudsman's Annual Report<br><br>Allegations against members<br><br>Review of Protocols |
| **22 Ionawr 2017**<br><br>Cofrestr Rhoddion a Lletygarwch<br><br>Cofrestr Datgan Buddiant | **22 January 2017**<br><br>Gifts and Hospitality Register<br><br>Declaration of Interest registers |

| | |
|---|---|
| Adroddiad Blynyddol y Panel Dyfarnu<br><br>Honiadau yn erbyn aelodau | Annual Report of Adjudication Panel<br><br>Allegations against members |
| **27 Mawrth 2017**<br><br>Hunan Arfarniad a Rhaglen Waith<br><br>Hyfforddiant | **27 March 2017**<br><br>Self Assessment and Work Programme<br><br>Training |

| | |
|---|---|
| **Pwyllgor :** | **PWYLLGOR SAFONAU** |
| **Dyddiad :** | **10 Gorffennaf 2017** |
| **Teitl :** | **Honiadau yn erbyn aelodau** |
| **Awdur :** | **Swyddog Monitro** |
| **Pwrpas :** | **Er gwybodaeth** |

## 1. Cefndir

Pwrpas yr adroddiad hwn yw cyflwyno gwybodaeth i'r Pwyllgor ar gwynion ffurfiol yn erbyn aelodau. Seilir yr adroddiad ar y wybodaeth a dderbyniwyd wrth yr Ombwdsmon a defnyddir ei gyfeirnodau.

## 2. Cwynion

### 2.1 Achos 12494/201607109

Dyddiad derbyn: 01/03/17

**Cwyn**

Cwyn bod cynghorydd cymuned wedi dwyn anfri ar ei swydd neu'r awdurdod ac wedi defnyddio ei sefyllfa'n amhriodol, wrth weithredu ar bwyllgor lleol.

**Penderfyniad**

Dim ymchwiliad - roedd yr aelod yn ymwneud â'r pwyllgor lleol mewn capasiti personol a phreifat ac nid fel cynghorydd etholedig.

### 2.2 Achos 20160341713317/201607353 & 20160341713317/201607357

Dyddiad derbyn: 08/03/17

**Cwyn**

Cwyn yn erbyn cynghorydd ar sail diffyg parch at eraill, bwlio ac aflonyddu, a dwyn anfri ar y swydd neu'r awdurdod.

**Penderfyniad**

Ombwdsmon yn ymchwilio.

### 2.3 Achos 7294/201607052

Dyddiad derbyn: 23/02/17

**Cwyn**

Cwyn yn erbyn cynghorydd ar sail defnyddio ei safle yn amhriodol, methiant i ddatgan buddiant a dwyn anfri ar y swydd neu'r awdurdod

**Penderfyniad**

Ombwdsmon yn ymchwilio.

**2.4 Achos 201700548**

Dyddiad derbyn : 28/04/17

**Cwyn**

Cwyn yn erbyn cynghorydd ei fod wedi rhoi sylwadau am yr achwynydd ar ei dudalen Facebook oedd yn enllibus ac yn dwyn anfri ar yr awdurdod a'i swydd.

**Penderfyniad**

Dim ymchwiliad. Nid oedd yn eglur os oedd y sylwadau yn hollol gyhoeddus ac os oedd wedi eu gwneud fel cynghorydd. Bwriadai'r Ombwdsmon serch hynny ysgrifennu at yr aelod i'w atgoffa o'r angen i gadw at baragraff 6(1)(a) (dwyn anfri) ar bob achlysur ac mewn unrhyw gapasiti. Roedd honiad o enllib yn fater cyfreithiol ar gyfer y llysoedd.

**2.5 Achosion 13891/201700942-945**

Dyddiad derbyn: 05/17

**Cwyn**

Cwynion yn erbyn pedwar cynghorydd cymuned mewn cysylltiad â datgan diddordeb mewn eitem gerbron.

**Penderfyniad**

Dim ymchwiliad mewn dau achos. Ystyried os am ymchwilio dau arall.

**3. Argymhelliad**

Gofynnir i'r Pwyllgor nodi'r wybodaeth

# FFORWM PWYLLGOR SAFONAU GOGLEDD CYMRU

# NORTH WALES STANDARDS COMMITTEES FORUM

17 Hydref 2016 am 11.00 am

Ystafell Bwyllgor 1, Cyngor Sir Ynys Môn, Llangefni

**PRESENNOL:** Gweler y rhestr enwau ynghlwm.

## 1. APWYNTIO CADEIRYDD AR GYFER Y CYFARFOD

Michael Wilson, Cadeirydd Pwyllgor Safonau Cyngor Sir Ynys Môn.

Penderfynwyd y byddai Cadeirydd yr Awdurdod ble cynhelir y cyfarfod yn Cadeirio'r cyfarfod ar bob achlysur.

## 2. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Ni dderbyniwyd unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb.

## 3. CYFLWYNIAD GAN OMBWDSMAN GWASANAETHAU CYHOEDDUS CYMRU

Croesawodd y Cadeirydd Mr Nick Bennett, Ombwdsman Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru.

Mae copi o gyflwyniad yr Ombwdsman ynghlwm i'r cofnodion hyn, yn Atodiad 1 (copi Saesneg yn unig).

Esboniodd yr Ombwdsman, mewn perthynas â Datrys Anghydfodau yn Lleol, y byddai'n croesawu ymestyn hynny i'r Cynghorau Tref a Chymuned - ond dywedodd nad oedd am orchymyn hynny. Dywedodd mai mater i bob Pwyllgor Safonau oedd hynny. Cadarnhaodd hefyd bod Un Llais Cymru yn gweithio ar hyn gyda'r Cynghorau Cymuned a'i fod yn croesawu hynny.

O safbwynt cwynion, esboniodd yr Ombwdsmon bod nifer y cwynion yn ymwneud â chynghorau sir wedi lleihau ond bod nifer y cwynion yn ymwneud â chynghorau trefn a chymuned wedi cynyddu (roedd y sefyllfa wedi cyfnewid rhwng y ddau ers y llynedd). Roedd 3 cyngor cymuned yn gyfrifol am oddeutu traean o'r holl gwynion yn ymwneud â chynghorau tref a chymuned - Glyn Nedd, Abertyleri, a Chyngor Tref Caergybi.

Mae'r prawf dau gam yn parhau i gael ei ddefnyddio a'r bwriad yw cael gwared ar unrhyw gwynion blinderus. Fodd bynnag, mae swyddfa'r Ombwdsmon yn dal i weld cynnydd yn nifer y cwynion (10% y flwyddyn) gyda'r Swyddfa'n derbyn 4,000 ymholiad a 2,000 o gwynion y llynedd. Dywed yr Ombwdsmon bod 76% o'i

adnoddau'n cael eu defnyddio ar ymchwiliadau iechyd. Er hynny, fe wnaeth yn glir ei fod yn cymryd cwynion o dorri Cod Ymddygiad aelodau etholedig yn ddifrifol iawn pan eu bod yn ymwneud â bwlio, anonestrwydd neu gamddefnyddio grym.

Mae gan swyddfa'r Ombwdsman gyllideb o £4 miliwn ac mae 58 aelod o staff.

Canmolodd yr Ombwdsmon y Fforwm ac roedd yn credu ei fod yn beth buddiol iawn i'w gael rhwng Awdurdodau Gogledd Cymru. Esboniodd y byddai'n hapus iawn i gyfarfod â'r Fforwm ar sail fwy rheolaidd os byddai hynny'n ddefnyddiol.

## 4. SESIWN CWESTIWN AC ATEB GYDAG OMBWDSMAN GWASANAETHAU CYHOEDDUS CYMRU

Mae copi o Gwestiynau ac Atebion yr Ombwdsman ynghlwm i'r cofnodion hyn, yn Atodiad 2 (copi Saesneg yn unig).

Diolchodd y Cadeirydd i'r Ombwdsmon am ei bresenoldeb yn y cyfarfod.

Toriad: 12-12.10. Yr Ombwdsman yn gadael.

## 5. AMLDER CYFARFODYDD

Cododd y Cadeirydd y mater o ba mor aml y dylid cynnal cyfarfodydd y Fforwm. Cynigiodd y Cadeirydd y byddai dwywaith y flwyddyn yn fuddiol. Ystyriwyd bod hyn yn gyfartaledd da, yn arbennig yn sgil sylwadau'r Ombwdsmon yn cefnogi'r Fforwm. Dywedwyd hefyd ei bod yn bwysig ychwanegu eitemau defnyddiol i'r Agenda; nodwyd bod presenoldeb yn dda yn y cyfarfod hwn, mae'n debyg oherwydd bod yr Ombwdsman yn bresennol. Mae'n bwysig bod yr agenda yn denu pob i fod eisiau bod yn bresennol. Trafodwyd hefyd pwy ddylai wneud y trefniadau; yr awdurdod ble cynhelir y cyfarfod i fod yn gyfrifol am yr agenda a threfniadau ystafell ayb.

**Penderfynwyd**: Cynnal cyfarfod o'r Fforwm ddwywaith y flwyddyn, ar sail rota ar gyfer pob awdurdod, gyda'r awdurdod ble cynhelir y cyfarfod yn gwneud y trefniadau angenrheidiol ar bob achlysur.

## 6. COFRESTR O DDIDDORDEBAU

Codwyd y mater gan Bwyllgor Safonau Cyngor Sir Ynys Môn mewn perthynas â'r gofrestr ddiddordebau safonol ar gyfer aelodau. Esboniwyd nad yw'r meddalwedd gan modgov yn dangos opsiwn Cymraeg i alluogi aelodau i lenwi eu cofrestr safonol ar-lein - mae'r hyn sy'n ymddangos ar y we yn y pendraw yn ddwyieithog, ac mae'r aelod yn gallu bwydo'r wybodaeth yn y Gymraeg neu'r Saesneg, ond ar hyn o bryd Saesneg yn unig yw'r ffurflen. Dywedodd modgov y byddai'n fodlon diweddaru'r meddalwedd er mwyn caniatáu tudalen Gymraeg, ond am gost o £10,000. Gofynnwyd a oedd Awdurdodau eraill yn cael yr un broblem, ac a fyddai'r holl Awdurdodau'n fodlon cyfrannu tuag at gost datrys y mater, er budd pawb, am ffracsiwn o'r gost.

Nid oedd pryder am hyn wedi codi yn yr Awdurdodau eraill ac felly roedd ansicrwydd ynghylch gaddo arian er mwyn datrys problem a oedd o bosib yn broblem nad oedd yn effeithio arnynt.

Defnyddir y system modgov gan y rhan fwyaf o'r Awdurdodau sy'n rhan o'r Fforwm (ond nid Parc Cenedlaethol Eryri), felly os oes problem, mae posibilrwydd y gallai'r Fforwm weithredu gyda'i gilydd i'w datrys. Ond mae pob Awdurdod wedi gwneud cytundeb ar wahân gyda modgov ac felly, er bod tebygrwydd bod y systemau yn debyg, efallai bod gwahaniaethau yn y fanyleb a gytunwyd o dan y cytundeb. Mae'n rhaid i bob Awdurdod felly wirio eu cytundeb ac yna gellir dod i farn ar y cyd. Os yw'n broblem i bob Awdurdod, cytunwyd y byddai gohebiaeth gan y Fforwm h.y. yr holl Awdurdodau yn gweithredu ar y cyd, yn cyfleu'r neges yn gryfach.

**Penderfynwyd:** Y byddai'r holl Awdurdodau'n gwneud ymholiadau am eu cytundeb gyda modgov ac yn adrodd yn ôl i'r Fforwm fel bod unrhyw gamau, os oes angen, yn cael eu cymryd ar y cyd yn hytrach nag gan Awdurdodau unigol.

## 7. HYFFORDDIANT CYFRYNGU

Yn sgil sylwadau'r Ombwdsmon y byddai'n cefnogi hyfforddiant cyfryngu er nad oedd ganddo'r gyllideb i gynnig cefnogaeth ariannol i syniad o'r fath, gofynnwyd a oedd aelodau'r Fforwm yn dymuno hyfforddiant o'r fath, ac os hynny, a oedd unrhyw syniadau ynghylch ymhle y gellid cael cefnogaeth ariannol.

Roedd rhywfaint o awydd am hyn ond byddai'n rhaid gwrthbwyso cost hyfforddiant o'r fath yn erbyn y ffaith mai dim ond ychydig, os o gwbl, fyddai angen ei ddefnyddio. Efallai y gellid ystyried ffynonellau cyllido eraill.

**Penderfynwyd**: Gwneud ymholiadau erbyn cyfarfod nesaf y Fforwm fydd yn cael ei gynnal gan Gyngor Sir Ddinbych.

## 8. CYFARFOD NESAF

Ym mis Mawrth/Ebrill 2017 – i'w gynnal gan Gyngor Sir Ddinbych

Diwedd y cyfarfod 12.45

APPENDIX 1



Ombudsman
Ombwdsmon

# North Wales Standards Committee Forum

**Nick Bennett**
**Ombudsman**

Investigating Complaints
Ymchwilio Cwynion
Improving Services
Gwella Gwasanaethau

## Local Resolution

- Member v Member complaints should be dealt with by internal dispute resolution procedure
- Extension of this to Community Councils


Investigating Complaints
Ymchwilio Cwynion
Improving Services
Gwella Gwasanaethau

## Proportion of complaints received




Investigating Complaints
Ymchwilio Cwynion
Improving Services
Gwella Gwasanaethau

## Town & Community Council Complaint outcomes




Investigating Complaints
Ymchwilio Cwynion

Improving Services
Gwellhau Gwasanaethau

## Two stage test

- Is there **direct** evidence that a breach actually took place?

If so:

- Is an investigation required in the public interest?

Investigating Complaints
Ymchwilio Cwynion

Improving Services
Gwellhau Gwasanaethau

## Testing Public Interest One Year on

- Is an investigation required in the public interest?
  - Public interest factors (non exhaustive)
    - Seriousness of breach
    - Deliberately seeking personal gain
    - Misuse of position of trust causing harm
    - Motivated by discrimination (protected characteristics)
    - Evidence of previous similar behaviour

Investigating Complaints
Ymchwilio Cwynion

Improving Services
Gwellhau Gwasanaethau

### Vexatious Complaints!

- "Cllr X refused to shake my hand!"
- "Cllr Y cracked a bad joke in poor taste!"
- "Cllr P tutted and huffed whilst shaking his head!"
- "Cllr M referred to the public gathered in the street as a mob!"
- "Cllr S was clicking his pen on and off in an aggressive manner!"



### What does this mean?

- The Ombudsman will only deal with serious breaches of the Code
- Not the 'Ombudsman of sense of humour'
- More matters referred back to Standards Committees to investigate
- 'Mandatory' Member v Member internal dispute resolution



# Q & A

**APPENDIX 2**

**NORTH WALES STANDARDS COMMITTEE FORUM**
**17 OCTOBER 2016**
**QUESTIONS FOR THE OMBUDSMAN**

1. Celia Blomeley, North Wales Fire and Rescue Standards Committee:
   Local resolution protocol. Is it toothless because it is not compulsory and because it cannot apply sanctions?
   Ombudsman:
   Local Resolution protocols have been successful in our view in encouraging engagement at a local level and accountability for low level failures to abide by the Code. It gives the parties the opportunity to resolve matters promptly and amicably. Local authority members should be aware that where local resolution fails matters can be referred to us for consideration. Our view is that if a breach justifies the imposition of a sanction that this would not be suitable for local resolution in any event and should be referred to us. It is intended to be used for low level, trivial or vexatious matters.

2. Celia Blomeley, North Wales Fire and Rescue Standards Committee:
   What is the future for local resolution protocols for town and community councils? Will it be limited to those who have powers of competency/additional duties under the Future Generations and Wellbeing Act 2015?
   Ombudsman:
   One Voice Wales has put together a draft model process which we have supported. Our view is that this process or one like this should be available to all Town and Community Councils.

3. Celia Blomeley, North Wales Fire and Rescue Standards Committee:
   Conflict of interests for Monitoring Officers and Standards Committees arising from Local Resolution Protocols and then dealing with any subsequent referrals from the Ombudsman.
   Ombudsman:
   This is in our view a matter of professional judgement. If there is a conflict the new 2016 Regulations[1] allow for the creation of joint standards committees or referral to another authority in these situations.

4. Sharon Warnes, Snowdonia National Park:
   There appears to be a reduction in the number of cases before the Adjudication Panel for Wales. Is this a direct result of local resolution? Or does the Ombudsman consider that the introduction of the public interest threshold test has affected the number of cases?
   Ombudsman:
   Whilst we consider that the "public interest" test may have had some bearing on this, the effect is that we are investigating the serious breaches. The figures for referral's to APW in previous years have fluctuated but remain largely dependent on the nature of the complaints made to us. Low level complaints not investigated

[1] The Local Government (Standards Committees, Investigations, Dispensations and Referral) (Wales) (Amendment) Regulations 2016

because they did not meet the public interest test are unlikely to have been referred to the APW under the previous two stage test in any event.

5. Iwan Jones, Snowdonia National Park:
   Is the Ombudsman considering offering or arranging mediation training for Monitoring Officers and the members of the various Standards Committee in light of the requirement for more to be done by way of local resolution? What is the role of the Standards Committee in relation to the Ombudsman's comment in the amended guidance, published July 2016, that "I am supportive of this (local resolution process) extending to cover community councils" (page 8)?
   Ombudsman:
   No our resources could not extend to this.

6. Iwan Jones, Snowdonia National Park:
   If the Ombudsman is considering that a local resolution process should be extended to include community councils too, will the Ombudsman provide a standard Local Resolution Protocol or template so as to ensure all members are treated fairly and consistently?
   Ombudsman:
   No, our view is that the process proposed by OVW is suitable and alternatively a principal authorities own protocol could be utilised and amended for this purpose.

7. John Roberts, Isle of Anglesey County Council:
   How do you see role of community councils when some have significant responsibilities yet the variance in clerks' time varies from full time staff to 10 hours a month and skill level varies considerably and some don't even want a computer.
   Ombudsman:
   This is not a matter for us. Nick you indicated that you could make reference here to Mark Drakeford's plans for local government reform.

8. Dilys Shaw, Isle of Anglesey County Council:
   Why do cases take so long from the complaint being reported to conclusion?
   Ombudsman:
   Reasons vary – often depend on nature and number of allegations made, sources of evidence and how accessible these are, the availability of witnesses and members themselves when they need to be interviewed. We are constantly looking at ways to improve on timescales, we now have a dedicated Code of Conduct investigation monthly review system aimed at ensuring investigations are focussed and timely. We are hopeful that this will have a positive impact and will be monitoring this.
   Last year 15/16 we saw an improvement in closure times, 84% of investigations were concluded within 9 months compared to the previous year when only 76% were closed in this time frame. Those taking up to a year to conclude reduced by 9%. (Reports attached)

9. Denise Harris-Edwards, Isle of Anglesey County Council:
   Is the Ombudsman considering preparing a Sanction Guidance specifically tailored to the needs and powers of Standards Committees?
   Ombudsman:
   There is no plan for us to do this. We are generally of the view that the issue of sanction is mainly for the Committee or Tribunal considering a matter. The APW has issued sanctions guidance which we actively refer Standards Committees to.

We feel that the aggravating and mitigating factors are equally applicable and the guidance on the nature of a sanction informative. As a group you may wish to develop this yourself

10. Mike Wilson asked on behalf of Gwynedd County Council:
Clarity around the new SI. i.e. suspension only within current term of office. Doesn't this make it pointless when a member can commit a serious breach of the Code, and if the timing is right, there will be no consequences? Would the expectation of the Ombudsman be that Standards Committees or Case Tribunals would still proceed and issue a censure only, making it clear that a suspension or disqualification would have followed had it been available? Is it really wasting costs to investigate, prosecute and adjudicate on something like this and isn't it unfair to elected members that some will be facing suspension because of a breach that takes place early on in their term of office and others will "get away with it"?
Ombudsman:
We supported this amendment when consulted by WG as it brings standards committee suspension sanctions in line with the APW's powers.

11. Mike Wilson asked on behalf of Gwynedd County Council:
Are we going down the route of the England model? Would it be better for the Ombudsman to just focus on public service delivery, rather than the conduct of elected members, given scarce resources?
Ombudsman:
Public Service delivery is important but the Code of Conduct plays a vital role in upholding standards in public office which is essential for public confidence in elected members. This is particularly important where we are seeing examples of serious breaches such as abuse of process or position.

12. John Roberts, Conwy County Borough Council:
The role of the Standards Committee and local Monitoring Officers in relation to town and community councils, particularly in light of the new draft Guidance. Is there an expectation that Monitoring Officers lodge complaints and / or is there an expectation that Standards Committees and Monitoring Officers now undertake local resolution at Town and Community Council level?
Ombudsman:
The guidance attempts to clarify that there are options available to a MO when a potential breach of the Code is identified, the mechanism to complain to us still exists. Where local resolution for Town and Community Council's is concerned it really is something which needs careful consideration. The One Voice Wales proposal is such that the Clerk plays a vital role in the process.

13. Martin Davies, Conwy County Borough Council:
Is there, or is there intended to be, an archive library of standards decisions, for consistency, rather than just the APW Case Tribunals.
Ombudsman:
Our casebook's provide a link to decisions taken by both SC and APW. We are currently working on a database of historic decisions which pre date the case books for internal use and we could consider whether there is scope for extending this for public access.

14. Ceri Nash, Wrexham County Borough Council:

It is a statutory requirement for Town and Community Councils to have websites and for their registers of interests to be published on them. What steps will the Ombudsman take if Town and Community Councils fail to conform to this requirement?

Ombudsman:
Failure by a town and community council to do this would ordinarily fall under our Maladministration jurisdiction. If a properly made complaint was investigated which identified that this was not happening recommendations could be made. If this was identified in the context of a code investigation we could make reference to this in the report but not an enforceable recommendation. However APW do have the ability to make recommendations if this arose as a key issue during a tribunal.

15. Ceri Nash, Wrexham County Borough Council:
What is the impact on the Ombudsman's office timescales now that it is receiving / investigating fewer cases?
Ombudsman:
Analysis of figures since the introduction of the PI test suggest that investigations are being concluded sooner 84% within 9 months in 15/16 compared to 76% in 14/15.

16. Ceri Nash, Wrexham County Borough Council:
The legislation in relation to the new ground for dispensation [ paragraph 4 (3) of The Local Government (Standards Committees, Investigations, Dispensations and Referral) (Wales) (Amendment) Regulations 2016 ] details that a dispensation may be granted if "it appears to the committee to be otherwise appropriate to grant a dispensation".
However, the amended guidance published by the Ombudsman's office details that dispensation can be granted "if appropriate in all circumstances, where it was not otherwise possible, to make reasonable adjustments to accommodate a person's disability".
Please confirm this is the "disability" created by the prejudicial interest; the legislation seems to be going further than what is included in the guidance?
Ombudsman:
Our understanding which is based on consultation information from WG is that the new ground for dispensation is based on a practical solution to "disability" of a particular member making it difficult for them to leave a room or chamber when a matter that they have a P&P interest is being discussed. The guidance has been written to reflect this.

17. Ed Hughes, Flintshire County Council:
Given the comments in guidance published by your office suggesting that local resolution procedures might help to reduce the number of complaints received from town and community councillors how had you envisaged that being resourced?
[The paragraph from the guidance is as follows -
"Most local authorities across Wales have implemented local resolution procedures to deal with low level complaints which are made by a member against a fellow member. These arrangements are proving to be effective at resolving many of these kinds of complaints. I am supportive of this extending to cover community councils."]
Ombudsman:
This would not be a matter for us

18. Rob Dewey, Flintshire County Council:
Whilst the annual report is welcome would it be possible to include greater analysis of the trends and any lessons that might come from the statistics, e.g. is there a rise in cases of disrespect or has there been a fall in allegations of failure to declare interests, in order to help reveal any future work that might be needed by Standards Committees or to demonstrate the success of work that has already been undertaken.
Ombudsman:
We are currently exploring ways of capturing and reporting in a more comprehensive and meaningful manner. It is hoped that we will be able to provide greater analysis in the future and appreciate the need for this.

19. Ian Trigger, Denbighshire County Council:
There is a concern that the public may lose confidence in the enforcement of the Code of Conduct if they feel that legitimate complaints have been considered not worthy of investigation. Would the Ombudsman consider referring cases that he has determined not to investigate for local investigation?
Ombudsman:
We take the view that members of the public could lose confidence if we were to investigate trivial complaints also this is the reason behind the public interest test. We do have powers to discontinue an investigation and refer this for local investigation; this is something which we have done in the past, but with very little take up and some reluctance from Monitoring Officers. Nevertheless the ability to do this still applies and we could do it if we deemed it appropriate.

20. Ian Trigger, Denbighshire County Council:
Does the Ombudsman consider that the setting of minimum standards and mandatory training for Clerks to Town, City and Community Councils would assist in the maintenance of high standards of conduct and the operation of Local Resolution Procedures in those Councils?
Ombudsman:
Yes whilst we agree that training in this area would be beneficial particularly if Clerk's are to play a role in local resolution but this is something that we as an organisation would be unable to resource. Organisations such as one voice wales or Society of Local Clerks may wish to take up.

| | |
|---|---|
| **Pwyllgor :** | **Pwyllgor Safonau** |
| **Dyddiad :** | **10 Gorffennaf 2017** |
| **Teitl :** | **Adroddiad Blynyddol Panel Dyfarnu Cymru 2014 - 2016** |
| **Awdur :** | **Swyddog Monitro** |
| **Pwrpas :** | **Cyflwyno er gwybodaeth** |

Cefndir

1. Bydd aelodau'n ymwybodol mai rôl Panel Dyfarnu Cymru yw ffurfio tribiwnlysoedd achos i ystyried honiadau yn erbyn aelodau o dorri'r Cod Ymddygiad.  Mae'r Panel yn derbyn honiadau o'r fath mewn dwy ffordd – naill ai yn uniongyrchol gan yr Ombwdsmon neu ar ffurf apeliadau yn erbyn penderfyniadau Pwyllgorau Safonau.

2. Yn ddiweddar mae'r Panel wedi cyhoeddi Adroddiad Blynyddol ar gyfer y blynyddoedd 2014 – 2015 a 2015-16, gyda'i gilydd, ac atodir copi er sylw'r Pwyllgor.

Argymhelliad

3. Gofynnir i'r Pwyllgor nodi'r adroddiad er gwybodaeth.

# Panel Dyfarnu Cymru Adroddiad Blynyddol

## 2014–2015 / 2015–2016
## Wedi'u Cyfuno

PDC / APW

PANEL DYFARNU CYMRU
ADJUDICATION PANEL FOR WALES

# Cynnwys


| | | |
|---|---|---|
| **Rhagair** | | 3 |
| **Adran 1** | Amdanom Ni | 4 |
| **Adran 2** | Perfformiad a Chynnydd | 7 |
| **Adran 3** | Crynodeb o'r Achosion | 11 |
| **Adran 4** | Ein Cwsmeriaid | 14 |
| **Adran 5** | Blaenoriaethau Busnes | 15 |
| **Adran 6** | Gwariant | 15 |


OGL © Hawlfraint y Goron 2017 WG30179 Digital ISBN 978 1 4734 8070 4

# Rhagair



Dyma fy adroddiad blynyddol cyntaf fel Llywydd Panel Dyfarnu Cymru. Mae'r adroddiad yn ymdrin â'r cyfnod 1 Ebrill 2014 – 31 Mawrth 2016. Mi welwch fod yr adroddiad blynyddol hwn yn cynnwys cyfnod o ddwy flynedd, yn wahanol i'r deuddeng mis arferol. Bu oedi cyn cyhoeddi'r adroddiad hwn oherwydd nifer fach yr achosion yr oedd y Panel Dyfarnu wedi delio â hwy ac oherwydd ymddeoliad fy rhagflaenydd, Mr J Peter Davies. Gobeithiaf y bydd yr adroddiad yn fuddiol i chi ac yn hawdd i'w ddilyn.

Ein nod yw sicrhau bod y Panel Dyfarnu'n gwasanaethu buddiannau pawb yng Nghymru sy'n dod o fewn ein hawdurdodaeth, trwy ddelio ag unrhyw anghydfodau'n effeithlon ac effeithiol. Yn benodol, rydym yn gwneud pob ymdrech i sicrhau bod pawb sy'n gysylltiedig â'r anghydfod yn teimlo yn y diwedd ei fod wedi cael ei ddatrys yn deg a hynny mewn cyn lleied o amser ag sy'n rhesymol. Rydym yn ymwybodol hefyd bod angen i'r cyhoedd yn gyffredinol fod yn hyderus, os bydd y Cod Ymddygiad yn cael ei dorri gan aelodau awdurdodau perthnasol, yr ymdrinnir â hwy'n deg ac amserol er mwyn cynnal ymddiriedaeth a hyder mewn democratiaeth leol.

Fel y gwelir yn yr ystadegau a gyflwynir yn yr Adroddiad, gwnaethpwyd amrywiaeth o Geisiadau i'r Panel Dyfarnu yn ystod y 2 flynedd ddiwethaf. Roedd y mathau mwyaf cyffredin o achosion a ddaeth gerbron y Panel Dyfarnu'n ymwneud â honiadau o fethiant i ddatgelu buddiant personol a rhagfarnus. Mae'n ymddangos bod nifer fach iawn o gynghorwyr yn cael anhawster i ddeall os oes buddiant personol neu ragfarnus yn bodoli, er gwaethaf yr hyfforddiant a'r arweiniad a gyhoeddir gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru.

Croesewir unrhyw gwestiynau neu sylwadau ar unrhyw agwedd ar waith y Panel Dyfarnu, neu gynnwys yr Adroddiad, a dylid eu cyfeirio at yr Ysgrifenyddiaeth yn y lle cyntaf.



**Claire Sharp**
**Llywydd, Panel Dyfarnu Cymru**

# Adran 1 – Amdanom Ni

Yn yr Adran hon:

- Y Sail dros y Panel Dyfarnu
- Swyddogaeth y Panel Dyfarnu
- Rheoliadau'r Panel Dyfarnu
- Proses y Panel Dyfarnu
- Aelodau'r Panel Dyfarnu
- Penodiadau
- Hyfforddiant
- Cysylltu â'r Panel Dyfarnu
- Mynediad at y Panel Dyfarnu

## Y Sail dros y Panel Dyfarnu

Mae Panel Dyfarnu Cymru'n dribiwnlys annibynnol a sefydlwyd i wneud penderfyniadau ar honiadau bod Cod Ymddygiad statudol awdurdod wedi cael ei dorri gan aelodau etholedig a chyfetholedig cynghorau Sir, bwrdeistref sirol a chymuned, ac awdurdodau tân a pharciau cenedlaethol yng Nghymru.

Sefydlwyd y Panel Dyfarnu o dan Ran III o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000.

## Swyddogaeth y Panel Dyfarnu

Mae Cod Ymddygiad awdurdod yn cyflwyno set o safonau i'w aelodau y mae disgwyl iddynt gydymffurfio â hwy mewn bywyd cyhoeddus. Mae'r cod ymddygiad yn cynnwys amryw o ofynion ar sut y dylai aelodau ymddwyn ac mae'n cynnwys gofynion yn ymwneud â chydraddoldeb, buddiannau personol a rhagfarnus, gwybodaeth gyfrinachol, adnoddau eu hawdurdod a'r angen i beidio â dwyn anfri ar eu swydd neu eu hawdurdod.

Mae gan y Panel Dyfarnu ddwy swyddogaeth statudol yn gysylltiedig â thorri'r Cod Ymddygiad:

- ffurfio tribiwnlysoedd achos neu achos interim ("Tribiwnlysoedd Achos") i ystyried **atgyfeiriadau** gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru (OGCC), yn dilyn ymchwiliad i honiadau nad yw aelod wedi cydymffurfio â Chod Ymddygiad eu hawdurdod; ac
- ystyried **apeliadau** gan aelodau yn erbyn penderfyniadau pwyllgorau safonau awdurdodau lleol eu bod wedi torri'r Cod Ymddygiad ("Tribiwnlysoedd Apêl").

## Rheoliadau'r Panel Dyfarnu

Mae'r Panel Dyfarnu'n gweithredu'n unol â'i reoliadau gweithdrefnol a deddfwriaeth gysylltiedig arall. Mae'r rheoliadau'n sicrhau bod pob achos a glywir gan y Panel Dyfarnu yn cael eu trin yn deg, yn gyson, yn brydlon ac yn gyfiawn. Maent yn sicrhau bod pawb sy'n dod gerbron y Panel Dyfarnu yn deall yn union pa gamau mae'n rhaid iddynt eu cymryd fel y bydd ffeithiau'r anghydfod a'r dadleuon perthnasol yn cael eu cyflwyno'n effeithiol i'r Panel Dyfarnu. Maent hefyd yn sicrhau bod pob parti mewn achos yn deall dadleuon y parti arall ac y gallant ymateb iddynt.

Mae gweithdrefnau'r Panel Dyfarnu'n cael eu llywodraethu gan y ddeddfwriaeth ganlynol:

- Deddf Llywodraeth Leol 2000 (fel y'i diwygiwyd);
- Rheoliadau Dyfarniadau gan Dribiwnlysoedd Achos a Thribiwnlysoedd Achos Interim (Cymru) 2001 (fel y'u diwygiwyd), a
- Rheoliadau Ymchwiliadau Llywodraeth Leol (Swyddogaethau Swyddogion Monitro a Phwyllgorau Safonau) (Cymru) 2001 (fel y'u diwygiwyd).

## Proses y Panel Dyfarnu

Rhaid i bawb sy'n dymuno ymateb i atgyfeiriad gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru neu wneud cais am ganiatâd i apelio i'r Panel Dyfarnu, gwblhau ac anfon y ffurflen berthnasol at y Panel Dyfarnu.

Yng ngwrandawiadau'r Panel Dyfarnu mae'r panel yn cynnwys cadeirydd sydd â chymwysterau cyfreithiol a 2 aelod lleyg. Bydd gwrandawiadau'r Panel Dyfarnu fel arfer yn agored i'r cyhoedd ac yn cael eu cynnal mewn lleoliad sy'n agos at ardal yr awdurdod lleol.


Mae'r Panel Dyfarnu'n cyhoeddi ei benderfyniadau ar wefan Panel Dyfarnu Cymru. Gellir apelio yn erbyn penderfyniadau Tribiwnlysoedd Achos i'r Uchel Lys ar sail nifer cyfyngedig o resymau. Rhaid gwneud cais yn gyntaf i'r Uchel Lys am ganiatâd i apelio i'r Uchel Lys.

Ceir gwybodaeth ac arweiniad llawn i'r Panel Dyfarnu a'i weithdrefnau ar wefan Panel Dyfarnu Cymru. Neu, gallwch gysylltu ag ysgrifenyddiaeth y Panel Dyfarnu am ragor o wybodaeth neu os hoffech gael cyhoeddiadau mewn fformat arall. Mae'r manylion cyswllt ar dudalen 6.

## Aelodau Panel Dyfarnu Cymru

Y Prif Weinidog sy'n penodi aelodau'r Panel Dyfarnu ar ôl ystyried argymhellion a wnaethpwyd gan y Comisiwn Penodiadau Barnwrol.

| | |
|---|---|
| **Llywydd** | Mae gan y Llywydd gyfrifoldeb barnwrol dros y Panel Dyfarnu a'i aelodau. |
| **Aelodau Cyfreithiol** | Mae'r aelodau cyfreithiol yn gyfreithwyr ac maent yn gyfrifol am gynnal achosion mewn gwrandawiadau a chynghori'r Ysgrifenyddiaeth ar faterion yn ymwneud â'r gyfraith. Bydd yr aelodau cyfreithiol yn ysgrifennu penderfyniadau'r Panel Dyfarnu ac yn rhoi cyfarwyddiadau pan fo angen. |
| **Aelodau Lleyg** | Mae gan aelodau lleyg ystod eang o wybodaeth a phrofiad sy'n berthnasol i waith y Panel Dyfarnu. |
| **Ysgrifenyddion** | Mae'r gwaith gweinyddol yn cael ei dirprwyo i raddau helaeth i'r ysgrifenyddiaeth, sy'n ymdrin â'r holl waith papur rhagarweiniol a'r gwaith o brosesu ceisiadau i'r Panel Dyfarnu. Mae'r ysgrifenyddiaeth yn ymgynghori â'r Llywydd a/neu'r aelodau cyfreithiol ar bob pwynt cyfreithiol sy'n codi yn ystod cyfnodau rhagarweiniol achosion cyn y gwrandawiad, ac yn anfon unrhyw ddyfarniadau a chyfarwyddiadau'n ysgrifenedig at y partïon. Mae'r ysgrifenyddiaeth yn gweithredu fel pwynt cyswllt ar gyfer cadeiryddion, aelodau a defnyddwyr y Panel Dyfarnu ac mae'n bresennol yn y gwrandawiadau i sicrhau bod yr achos yn mynd rhagddo'n effeithlon. |




## Penodiadau

Yn Ionawr 2016, penodwyd 3 aelod cyfreithiol a 4 aelod lleyg ar y Panel Dyfarnu. O'r aelodau cyfreithiol a benodwyd, penodwyd Mrs Claire Sharp yn ddiweddar fel Llywydd y Panel Dyfarnu, a hynny o 1 Mai 2016.

## Hyfforddiant

Cynhaliwyd seminar hyfforddi yn ystod Tachwedd 2014. Ni fu dim hyfforddiant yn ystod 2015/16 gan fod aelodau newydd yn cael eu recriwtio. Cafodd rhaglen reolaidd o arfarnu perfformiad ar gyfer aelodau'r Panel Dyfarnu ei chwblhau yn ystod y blynyddoedd blaenorol. Oherwydd y penodiadau newydd eleni, rhagwelir y bydd y rownd nesaf o arfarniadau perfformiad ar gyfer aelodau'r Panel Dyfarnu yn cychwyn yn ystod blwyddyn 2017/18.

## Cysylltu â'r Panel Dyfarnu

I gysylltu ag Ysgrifenyddiaeth y Panel Dyfarnu:

| | |
|---|---|
| Cyfeiriad y Panel Dyfarnu: | Panel Dyfarnu Cymru<br>Adeiladau'r Llywodraeth<br>Spa Road East<br>Llandrindod<br>Powys<br>LD1 5HA |
| Llinell Gymorth y Panel Dyfarnu: | 03000 259805 |
| Ffacs y Panel Dyfarnu: | 03000 259801 |
| E-bost y Panel Dyfarnu: | adjudication.panel@cymru.gsi.gov.uk |

## Mynediad at y Panel Dyfarnu

Mae'r Panel Dyfarnu'n hapus i gyfathrebu â chi yn Gymraeg neu yn Saesneg. Os nad oes siaradwr Cymraeg ar gael ar y pryd gallwn drefnu bod aelod Cymraeg ei iaith o'r staff yn eich ffonio'n ôl.

Gallwch ddewis cael gwrandawiad yn Gymraeg neu Saesneg. Os yw eich iaith gyntaf yn iaith heblaw Cymraeg neu Saesneg ac yr hoffech siarad yn eich iaith gyntaf yn ystod y gwrandawiad, gallwn drefnu bod cyfieithydd yn bresennol. Os oes angen cyfieithydd iaith arwyddion arnoch yn ystod y gwrandawiad, gallwn drefnu hynny.

Os oes gennych chi neu rywun sy'n dod gyda chi i'r gwrandawiad unrhyw ofynion mynediad eraill a all effeithio ar ein trefniadau ar gyfer y gwrandawiad, bydd darpariaethau'n cael eu gwneud.

Er mwyn gwneud trefniadau ar gyfer cyfieithwyr neu i ddarparu ar gyfer unrhyw anghenion ychwanegol, rhaid rhoi rhybudd digonol i'r ysgrifenyddiaeth.

# Adran 2 – Perfformiad a Chynnydd

Yn yr Adran hon:

- Niferoedd ac ystadegau
- Data Gwrandawiadau
- Apeliadau pellach
- Cyflawniad yn erbyn dangosyddion perfformiad allweddol
- Cwynion


## Niferoedd ac Ystadegau

Mae blwyddyn Tribiwnlys yn ymestyn o Ebrill i Fawrth. Mae'r adroddiad hwn yn ymdrin â dwy flwyddyn tribiwnlys. Gan fod niferoedd yr achosion a gafwyd yn gymharol isel, rhoddir ffigurau ar gyfer cyfnod o 5 mlynedd er mwyn gallu cymharu.


Cafodd yr ystadegau canlynol eu coladu:

- Niferoedd yr atgyfeiriadau ac apeliadau a gafwyd
- Y math o geisiadau a gafwyd ac a gofrestrwyd
- Nifer y ceisiadau a gwblhawyd
- Canlyniad y ceisiadau

Graff 2.1: Nifer yr atgyfeiriadau a'r apeliadau a gafwyd fesul blwyddyn




Graff 2.2: Nifer yr atgyfeiriadau a'r apeliadau a benderfynwyd fesul blwyddyn Ebrill 2011 – Mawrth 2016





Siartiau 2.3 a 2.4: Canlyniadau atgyfeiriadau ac apeliadau Ebrill 2011 – Mawrth 2016


Mae'r siart isod yn dangos canlyniad yr atgyfeiriadau a benderfynwyd gan y Panel Dyfarnu yn ystod y 5 mlynedd diwethaf.



Mae'r siart isod yn dangos canlyniad yr apeliadau a benderfynwyd gan y Panel Dyfarnu yn ystod y 5 mlynedd diwethaf.




Graff 2.5: Canran nifer yr achosion o dorri'r Cod yn ôl math Ebrill 2011 – Mawrth 2016



## Data gwrandawiadau

Yn ystod 2014 – 2016, arweiniodd 2 atgyfeiriad gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru a 2 apêl yn erbyn penderfyniad pwyllgorau safonau at wrandawiad, a oedd wedi golygu 5 diwrnod o wrandawiadau:

| **Math** | **Hyd (mewn dyddiau)** |
|---|---|
| Atgyfeiriadau | 2 ddiwrnod o wrandawiadau |
| Apeliadau | 3 diwrnod o wrandawiadau |

Hefyd bu 4 cynhadledd ffôn a drefnwyd mewn cysylltiad â'r achosion hyn.

## Apeliadau pellach

Caniateir gwneud ceisiadau am hawl i apelio yn erbyn penderfyniad Tribiwnlys Achos neu Dribiwnlys Achos Interim i'r Uchel Lys ar sail nifer gyfyngedig o resymau. Yn ystod cyfnod yr adroddiad hwn, ni chafwyd dim ceisiadau am ganiatâd.

## Cyflawniad yn erbyn dangosyddion perfformiad allweddol

Er mwyn monitro pa mor effeithiol yw ein gwasanaethau, mae gennym ddangosyddion perfformiad allweddol sy'n mesur dwy agwedd allweddol ar ein busnes; cyflymder ein gwasanaeth ac ansawdd y gwasanaeth trwy foddhad cwsmeriaid.

I fesur cyflymder ein gwasanaeth, mae gennym gyfres o ddangosyddion perfformiad sylfaenol sy'n seiliedig ar yr amser a gymer i brosesu cais – yr amser rhwng cael y cais hyd a'r gwrandawiad neu waredu (gweler isod). I fesur boddhad cwsmeriaid, rydym yn defnyddio dangosydd sy'n deillio o ffurflenni adborth a ddosberthir pan fydd achos wedi'i gwblhau (gweler Adran 4).

## Cyflymder ein gwasanaeth 2014-2016

| | |
|---|---|
| **Targed:** delio â 95% o ymholiadau neu achosion a dderbyniwyd o fewn 10 niwrnod gwaith ar ôl eu cael. | → Cyrhaeddwyd y targed mewn 100% o'r achosion. |
| **Targed:** anfon 100% o hysbysiadau gwrandawiad at yr ymatebydd/apeliwr o leiaf 15 diwrnod gwaith cyn y gwrandawiad ac o leiaf 5 diwrnod gwaith cyn unrhyw wrandawiad a ohiriwyd. | → Cyrhaeddwyd y targed mewn 100% o'r achosion. |
| **Targed:** anfon 100% o hysbysiadau gwrandawiad at dystion o fewn 10 diwrnod gwaith i'r gwrandawiad. | → Cyrhaeddwyd y targed mewn 100% o'r achosion. |
| **Targed:** 90% o adroddiadau ar benderfyniadau'n cael eu cyhoeddi o fewn 30 diwrnod gwaith ar ôl y gwrandawiad. | → Cyrhaeddwyd y targed mewn 40% o'r achosion. |
| **Targed:** rhyddhau 75% o achosion o fewn 12 mis. | → Cyrhaeddwyd y targed mewn 80% o'r achosion. |

## Cwynion

Ni chafodd y Panel Dyfarnu ddim cwynion ffurfiol yn ystod cyfnod yr adroddiad.

# Adran 3: Crynodeb o'r achosion

Yn yr Adran hon:

- Atgyfeiriadau
- Apeliadau

## Atgyfeiriadau

Yn ystod cyfnod yr adroddiad cynhaliwyd 2 wrandawiad tribiwnlys achos a ddeilliodd o atgyfeiriadau gan yr Ombwdsmon. Ceir crynodeb o'r achosion lle cafwyd penderfyniadau gan y Panel Dyfarnu isod.

### APW/002/2014-015/CT
### Cyngor Cymuned Llanfihangel ar Arth

Yr honiad oedd bod y cynghorydd wedi torri Cod Ymddygiad Cyngor Cymuned Llanfihangel ar Arth gan iddo fethu â datgan buddiant personol a rhagfarnus mewn cyfarfod o'r Cyngor Cymuned.

Daeth y digwyddiad i'r amlwg pan gafodd cais cynllunio ar dir ger eiddo yr oedd y cynghorydd yn berchen arno ei ystyried gan y Cyngor Cymuned, a phan gynhaliwyd pleidlais gudd i benderfynu a fyddai'r Cyngor yn cefnogi ynteu'n gwrthwynebu'r cais.

Canfu'r Tribiwnlys Achos yn unfrydol nad oedd y cynghorydd wedi cydymffurfio â Chod Ymddygiad Cyngor Cymuned Llanfihangel ar Arth fel a ganlyn:

- Os bydd gennych chi fuddiant personol mewn unrhyw fusnes y mae eich awdurdod yn ymdrin ag ef ac os ydych chi'n bresennol mewn cyfarfod lle mae'r busnes hwnnw'n cael ei drafod, rhaid i chi ddatgelu ar lafar i'r cyfarfod hwnnw fodolaeth a natur y buddiant hwnnw cyn neu ar ddechrau'r drafodaeth honno, neu pan ddaw'r buddiant yn amlwg;
- Os oes gennych chi fuddiant rhagfarnus mewn unrhyw fusnes y mae eich awdurdod yn ymdrin ag ef, rhaid i chi, oni bai eich bod wedi cael caniatâd Pwyllgor Safonau eich awdurdod, adael yr ystafell, y siambr neu'r fan lle mae'r cyfarfod sy'n trafod y busnes yn cael ei gynnal (paragraff 14(1)).

Daeth y Tribiwnlys Achos i benderfyniad unfrydol y dylai'r cynghorydd gael ei wahardd rhag gweithredu fel aelod o Gyngor Cymuned Llanfihangel ar Arth am gyfnod o 3 mis.

### APW/001/2015-016/CT
### Cyngor Cymuned Magwyr a Gwyndy

Yr honiad oedd bod y cynghorydd wedi torri Cod Ymddygiad Cyngor Cymuned Magwyr a Gwyndy trwy beidio â datgan neu adael ystafell y cyfarfod lle'r oedd y Cyngor Cymuned yn ystyried pecyn cydnabyddiaeth ariannol y clerc.

Roedd y digwyddiad yn berthnasol gan fod y cynghorydd mewn perthynas â'r clerc, a phriododd y ddau rai misoedd yn ddiweddarach.

Canfu'r Tribiwnlys Achos mewn penderfyniad unfrydol nad oedd y cynghorydd wedi cydymffurfio â Chod Ymddygiad Cyngor Cymuned Magwyr a Gwyndy yn y ffyrdd canlynol:

- Ni ddylech ymddwyn mewn modd y gellid yn rhesymol ei ystyried sy'n dwyn anfri ar eich swydd neu'r awdurdod (paragraff 6(1)(a));
- Os bydd gennych fuddiant sy'n rhagfarnu mewn unrhyw fusnes y mae a wnelo eich awdurdod ag ef rhaid i chi, oni roddwyd i chi ganiatâd arbennig gan bwyllgor safonau eich awdurdod, ymadael â'r ystafell, y siambr neu'r man lle y mae cyfarfod i ystyried y busnes yn cael ei gynnal (paragraff 14(1)).

Penderfynodd y Tribiwnlys Achos yn unfrydol y dylid gwahardd y cynghorydd rhag gweithredu fel aelod o Gyngor Cymuned Magwyr a Gwyndy am gyfnod o 3 mis. Argymhellodd hefyd fod y cynghorydd yn cael hyfforddiant pellach ar y Cod Ymddygiad cyn dychwelyd i'w swydd.

## Apeliadau

Yn ystod cyfnod yr adroddiad cynhaliwyd dau dribiwnlys apêl a oedd yn deillio o apeliadau gan aelodau yn erbyn penderfyniadau Pwyllgorau Safonau Awdurdodau Lleol. Ceir crynodeb o'r achosion lle cafwyd penderfyniadau gan y Panel Dyfarnu yn ymddangos isod.

### APW/001/2014-015/AT
### Cyngor Cymuned Sili a Larnog

Cafwyd apêl yn erbyn penderfyniad y pwyllgor safonau bod cynghorydd wedi torri Cod Ymddygiad Cyngor Cymuned Sili a Larnog ac y dylai gael ei wahardd o'i swydd am 6 mis ac y dylai gael hyfforddiant.

Canfu'r pwyllgor safonau fod y cynghorydd wedi torri paragraffau canlynol y Cod Ymddygiad mewn negeseuon e-bost am aelod arall o'r Cyngor Cymuned:

- Rhaid ymddwyn yn barchus ac ystyriol tuag at eraill (paragraff 4(b));
- Ni ddylech ymddwyn mewn modd y gellid yn rhesymol ei ystyried sy'n dwyn anfri ar eich swydd neu'r awdurdod (paragraff 6 (1)(a)).

Apeliodd y cynghorydd ar y sail nad oedd y pwyllgor safonau wedi rhoi sylw digonol i'r dystiolaeth bod y negeseuon e-bost wedi cael eu hanfon o gyfeiriad e-bost preifat a'u bod wedi'i hanfon ganddo fel dinesydd preifat, a'i fod wedi anwybyddu'r pryfocio gan yr aelod a oedd yn destun y negeseuon. Hefyd, roedd y cynghorydd yn apelio gan ei fod o'r farn bod y gosb yn anghymesur.

Canfu'r Tribiwnlys Apêl fod rhai o'r negeseuon e-bost wedi cael eu hanfon ganddo fel dinesydd preifat, ond bod rhai'n swyddogol. Canfu hefyd fod rhai o'r negeseuon yn ddatganiadau gwleidyddol a oedd yn denu amddiffyniad uwch o dan Erthygl 10 o'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol.

Mewn penderfyniad unfrydol daeth y Tribiwnlys Apêl i'r casgliad nad oedd y cynghorydd wedi torri Cod Ymddygiad Cyngor Cymuned Sili a Larnog a gwyrdrowyd penderfyniad y pwyllgor safonau.

APW/003/2014-015/AT
Cyngor Sir Ynys Môn

Cafwyd apêl yn erbyn penderfyniad y pwyllgor safonau fod y cynghorydd wedi torri Cod Ymddygiad Cyngor Sir Ynys Môn ac y dylai gael ei wahardd o'i swydd am 1 mis.

Canfu'r pwyllgor safonau fod y cynghorydd wedi torri'r Cod Ymddygiad wrth gysylltu â swyddogion y Cyngor ynglŷn â gwerthu llain benodol o dir; nad oedd y cynghorydd wedi datgan cysylltiad personol agos â darpar brynwr y tir a bod y cynghorydd wedi camddefnyddio ei swydd fel aelod i sicrhau mantais i'r darpar brynwr:

Dywedodd y Pwyllgor Safonau fod paragraffau canlynol y cod ymddygiad wedi eu torri:

- Yn eich capasiti swyddogol neu fel arall, rhaid i chi beidio â defnyddio neu geisio defnyddio eich safle yn amhriodol i roi neu i sicrhau mantais i chi eich hun neu i unrhyw berson arall, neu i greu neu i osgoi anfantais i chi eich hun neu i unrhyw berson arall (paragraff 7(a));
- Ym mhob mater rhaid i chi ystyried a oes gennych fuddiant personol, ac a yw'r cod ymddygiad hwn yn ei gwneud yn ofynnol i chi ddatgelu'r buddiant hwnnw (paragraff 10(1));
- Pan fydd gennych fuddiant personol mewn unrhyw fusnes y mae a wnelo eich awdurdod ag ef ac y byddwch yn bresennol mewn cyfarfod lle y caiff y busnes hwnnw ei ystyried, rhaid i chi ddatgelu ar lafar gerbron y cyfarfod hwnnw fodolaeth a natur y buddiant hwnnw cyn i'r cyfarfod ystyried y busnes neu ar ddechrau'r ystyriaeth, neu pan ddaw'r buddiant i'r amlwg (paragraff 11(1));
- Pan fydd gennych fuddiant personol mewn unrhyw fusnes y mae a wnelo eich awdurdod ag ef ac y byddwch yn gwneud cynrychioliadau ysgrifenedig (p'un ai drwy lythyr, neges ffacs neu ar ryw ffurf arall ar gyfathrebu electronig) i un o aelodau neu o swyddogion eich awdurdod ynghylch y busnes hwnnw, dylech gynnwys manylion am y buddiant hwnnw yn y gyfathrebiaeth ysgrifenedig (paragraff 11(2)(a));
- Pan fydd gennych fuddiant personol mewn unrhyw fusnes y mae a wnelo eich awdurdod ag ef ac y byddwch yn gwneud cynrychioliadau llafar (p'un ai'n bersonol neu ar ryw ffurf ar gyfathrebu electronig) i un o aelodau neu o swyddogion eich awdurdod dylech ddatgelu'r buddiant ar ddechrau'r cyfryw gynrychioliadau, neu pan ddaw'n amlwg i chi fod gennych fuddiant o'r fath, a chadarnhau'r cynrychioliad a'r buddiant yn ysgrifenedig o fewn 14 o ddiwrnodau ar ôl gwneud y cynrychioliad (paragraff 11(2)(b));
- Os bydd gennych fuddiant sy'n rhagfarnu mewn unrhyw fusnes y mae a wnelo eich awdurdod ag ef rhaid i chi, oni roddwyd i chi ganiatâd arbennig gan bwyllgor safonau eich awdurdod, ymadael â'r ystafell, y siambr neu'r man lle y mae cyfarfod i ystyried y busnes yn cael ei gynnal (paragraff 14(1)(a));
- Os bydd gennych fuddiant sy'n rhagfarnu mewn unrhyw fusnes y mae a wnelo eich awdurdod ag ef rhaid i chi, oni roddwyd i chi ganiatâd arbennig gan bwyllgor safonau eich awdurdod, beidio â cheisio dylanwadu ar benderfyniad ynghylch y busnes hwnnw; peidio â gwneud unrhyw gynrychioliadau ysgrifenedig (p'un ai drwy lythyr, neges ffacs neu ar ryw ffurf arall ar gyfathrebu electronig) mewn perthynas â'r busnes hwnnw (paragraff 14(1)(c-d)).

Apeliodd y cynghorydd ar y sail nad oedd ganddo berthynas hir â'r darpar brynwr, ac nad oedd cosb gwaharddiad yn ystyried yn briodol y niwed a wnaethpwyd iddo ef a'i deulu ar ôl i fanylion yr achos ymddangos yn y wasg.

Daeth y Tribiwnlys Apêl i benderfyniad unfrydol fod gan y cynghorydd berthynas agos â'r darpar brynwr a'i fod wedi torri Cod Ymddygiad Cyngor Sir Ynys Môn. Atgyfeiriodd y mater yn ôl i'r pwyllgor safonau gydag argymhelliad y dylai'r cynghorydd gael ei wahardd o'i swydd am 3 mis.

# Adran 4 – Ein Cwsmeriaid

Yn yr Adran hon:

- Arolwg boddhad cwsmeriaid

## Arolwg boddhad cwsmeriaid

Mae'r Panel Dyfarnu yn ymdrechu i wella ei wasanaeth i gwsmeriaid a'i nod yw rhoi ein cwsmeriaid wrth galon popeth a wnawn.

Yn ystod 2014-2016 dosbarthodd y Panel Dyfarnu arolwg boddhad cwsmeriaid ar ôl cwblhau pob achos. Mae'r adborth o'r arolwg yn ein galluogi i gael gwell dealltwriaeth o anghenion ein cwsmeriaid ac mae'n rhoi syniad gwerthfawr i ni o'r hyn mae'r Panel Dyfarnu'n ei wneud yn dda, yn ogystal ag amlygu'r meysydd hynny lle mae angen i ni wella.

Cafwyd 2 ffurflen wedi'u cwblhau yn ôl yn ystod 2014-2016. O'r rhain:

- Roedd 100% o'r ymatebion a gwblhawyd yn dweud bod y Panel Dyfarnu wedi ymateb yn brydlon;
- Roedd 100% o'r ymatebion a gwblhawyd yn dweud bod y Panel Dyfarnu yn gwrtais ac yn barod i helpu;
- Roedd 100% o'r ymatebion a gwblhawyd yn dweud eu bod yn fodlon â'r wybodaeth a gawsant;
- Roedd 100% o'r ymatebion a gwblhawyd yn dweud eu bod yn deall y broses;
- Roedd 100% o'r ymatebion a gwblhawyd yn dweud bod yr wybodaeth a oedd yn y ffurflenni canllaw'n ddefnyddiol, ac
- Roedd 100% o'r ymatebion a gwblhawyd yn dweud ein bod wedi prosesu'r achos yn effeithlon.

# Adran 5 – Blaenoriaethau Busnes

Yn yr Adran hon:

- Blaenoriaethau busnes 2016-2017

Mae'n bwysig bod y Panel Dyfarnu'n parhau i ddatblygu er mwyn darparu'r gwasanaeth gorau posibl i'n defnyddwyr. Mae'r adran hon yn ymdrin â sut y bydd y Panel Dyfarnu'n adeiladu ar yr hyn y mae wedi'i gyflawni trwy ganolbwyntio ar flaenoriaethau busnes a'n hymrwymiad i'n defnyddwyr.

## Blaenoriaethau Busnes 2016-2017

- Cynllunio a chyflwyno digwyddiad hyfforddi ar gyfer pob aelod a digwyddiad cynefino ar gyfer aelodau newydd;
- Gweithredu system arfarnu newydd ar gyfer pob aelod;
- Parhau i fonitro a diweddaru gwefan y Panel Dyfarnu;
- Darparu gwasanaeth effeithiol ac effeithlon, cyflawni dangosyddion perfformiad allweddol ac ymateb i adborth ar arolygon boddhad cwsmeriaid.

# Adran 6 – Gwariant

Yn yr Adran hon:

- Gwariant am 2014-2016

## Gwariant am 2014-2015

| Cynnwys | Swm |
|---|---:|
| Ffioedd a Threuliau Aelodau ar gyfer gwrandawiadau tribiwnlysoedd* | £12,000 |
| Digwyddiadau Tribiwnlysoedd (cost gwrandawiadau) | £121.36 |
| **Cyfanswm** | **£12,121.36** |

* wedi'i dalgrynnu i'r £1,000 agosaf

## Gwariant am 2015-2016

| Cynnwys | Swm |
|---|---:|
| Ffioedd a Threuliau Aelodau ar gyfer gwrandawiadau tribiwnlysoedd* | £15,000 |
| Digwyddiadau Tribiwnlysoedd (cost gwrandawiadau) | £6,577.78 |
| **Cyfanswm** | **£21,577.78** |